

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 528 · Chwefror 2022 · 50c

## Neuadd Ogwen ddoe, heddiw ac yfory

Mae'n siŵr bod pawb ohonom yn ymwybodol bellach bod y prosiect diweddaraf parthed y Neuadd ar y gweill erbyn hyn.

Yn ôl Dilwyn Llwyd, rheolwr y Neuadd, mae swm o £335,000 wedi'i sicrhau mewn grantiau tuag at gyflawni'r gwaith, a chais pellach wedi'i wneud am £37,000 yn ychwanegol. Paratowyd y cynlluniau gan benseiri Cwmni Creu, ac mae'r gwaith yn cael ei wneud gan Gwmni Adeiladwyr Môn.

Dywed y cwmni lleol C.L.Jones eu bod yn falch o gefnogi'r gwaith drwy ddarparu deunyddiau adeiladu ar gyfer y prosiect. Bydd y gwaith yn gweld adeiladau adfeiliedig yn cael eu trawsnewid i ystafelloedd digwyddiadau, ardal storio, a chyntedd a drysau newydd ar ochr Cae Star. Cyfarfu Hughie Owen, Rheolwr Gwerthiant Ardal C.L. Jones â Gwyn Lewis a Carwyn Griffiths o Adeiladwyr Môn

yn y Neuadd wrth i'r gwaith ddechrau. Dywedodd Hughie: "Mae'n wych gweld mentrau lleol a busnesau annibynnol yn dôd at ei gilydd i gefnogi swyddi a'r gymuned. Dechreuodd C.L. Jones ym Methesda 40 mlynedd yn ôl ac mae cymryd rhan mewn prosiectau fel hyn yn y pentref yn bwysig iawn i ni."

Ychwanegodd Dilwyn bod asesiad proffesiynol parthed diogelwch wedi'i wneud, a bydd mynediad i gadair olwyn ym mhob rhan o'r Neuadd. Er bod Brexit, a'r pandemig, wedi golygu bod y gwaith yn cymryd mwy o amser na'r hyn a fwriadwyd, mae ef, a phawb ohonom, yn gobeithio y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ebrill.

Bu llawer tro ar fyd yn hanes y Neuadd ers sefydlu 'Y Farchnad' tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn ystod y degawdau diwethaf yma, adnewyddwyd hi o leiaf deirgwaith.



Mae'r ddau lun a welir yn dangos y Neuadd fel ag yr oedd yn 2014, ac yna yn 2019, pryd y cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn

Ogwen – yr olaf cyn y pandemig. Edrychwn ymlaen yn eiddgar fel ardal i weld y Neuadd ar ei newydd wedd!

## Sêr pêl-droed y dyfodol



Mae Gruff Beech (ysgol Llanllechid), Tomi Hughes a Max Williams (ysgol Penybryn) wedi cael eu dewis i chwarae pêl-droed i Ysgolion Gwynedd. Maent erbyn hyn wedi chwarae gemau yn erbyn Sir Fôn, Sir Conwy a Sir Y Fflint, ac yn gwneud yn ardderchog yn cynychioli'r Sir a Bethesda. Mae'r tri yn brysur iawn, gan eu bod hefyd yn aelodau o clwb pêl-droed Ogwen Tigers a thîm rygbi Bethesda.



## Panel Golygyddol

### Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)  
ieuanwyn01@gmail.com

### Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)  
l.roberts11@btinternet.com

### Neville Hughes

(Ffôn 600853)  
nev\_hughes@btinternet.com

### Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)  
dewimorgan@live.co.uk

### Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)  
trystanrp1@gmail.com

### Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)  
waltermenai@yahoo.co.uk

### Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)  
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

### Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)  
owain.evans1@gmail.com

### Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)  
carwynian@hotmail.com

### Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606)  
rml42@live.co.uk

### Dilwyn Pritchard,

(Ffôn 01248 601880)  
d.pritchard@btinternet.com

## Swyddogion

### CADEIRYDD:

**Dewi A Morgan**, Park Villa,  
Lôn Newydd Coetmor,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3DT (Ffôn 602440)  
dewimorgan@live.co.uk

### TREFNYDD HYSBYSEBION:

**Neville Hughes**, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)  
nev\_hughes@btinternet.com

### YSGRIFENNYDD:

**Gareth Llwyd**, Talgarnedd,  
3 Sgwâr Buddug, Bethesda  
LL57 3AH (Ffôn 601415)  
garethllwyd197@btinternet.com

### TRYSORYDD:

**Godfrey Northam**, 4 Llwyn  
Bedw, Rachub, Llanllechid  
LL57 3EZ (Ffôn 600872)  
godfreydnortham@hotmail.co.uk

### Y LLAIS DRWY'R POST:

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3NN (Ffôn 600184)  
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan  
**Walter a Menai Williams.**

Y golygydd ym mis **Mawrth** fydd

### Dilwyn Pritchard,

2 Bron Arfon, Llanllechid,  
Bethesda. LL57 3LW  
01248 601880

E-bost : [d.pritchard@btinternet.com](mailto:d.pritchard@btinternet.com)

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**

**26 Chwefror** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

### Nos Iau, 17 Mawrth

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT  
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD  
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD  
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Ionawr

£30.00	(17)	Owen G. Jones, Erw Las, Bethesda.
£20.00	(22)	Don Hughes, Halifax.
£10.00	(172)	Wendy Jones, Rachub.
£5.00	(29)	Mair O. Pierce, Rhos y Coed, Bethesda.

**Diolch yn fawr**

## Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

## JOHN ROBERTS



**Paentiwr**

**Papurwr**

**Teilsiw**

**Symudol: 07747 628650**

**Ffôn: 01248 600995**

## Rhoddion i'r Llais

£50.00	Eunice Jones, Rhiwlas, er cof am ei chwaer, Valmai Jones, Waen Pentir, a fu farw ar 18 Medi, ac Eilir Glyn Jones, ei nai, a fu farw ar 9 Rhagfyr.
£20.00	Er cof annwyl am Owena Davies, Llandwrog, oddi wrth ei chwaer, Eirlys, a'i brawd, Gwynn.
£20.00	Er cof am Carys Williams, Tregarth, oddi wrth Arthur a'r teulu.
£5.00	Di-enw Bethesda.
£5.00	Di-enw Bethesda.
£14.50	Cefnogwr, Bryn Caseg.
£4.50	Di-enw, Bryn Caseg.
£6.50	Helen Roberts, Abercaseg.
£6.50	Joan Parry, Abercaseg.
£6.50	Di-enw, Ffordd Pant.
£8.00	Don Hughes, Halifax.
£20.00	Er cof annwyl am Eirlys Roberts, Cilfodan, a fu farw 10 Chwefror 2016. Priod, mam a nain annwyl. Oddi wrth Vic a'r teulu.

**Diolch yn fawr.**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwahoddiad i Ymaelodi

Annwyl gyfeillion

Bu Clwb Cyfeillion Llais Ogwan yn weithredol ers rhyw 33 mlynedd bellach, gan lwyddo i estyn cefnogaeth ariannol sylweddol i'n Papur Bro. Yn anffodus mae nifer yr aelodaeth wedi gostwng ers i ni ail-lawnsio'r Clwb yn 2008. Bryd hynny cododd nifer yr aelodau i 193 ond bellach, am wahanol resymau (yn cynnwys marwolaethau ac aelodau'n symud o'r ardal) 127 aelod oedd gennym ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.

Tybed a fydddech chi yn barod i lenwi rhywfaint ar y bwllch drwy ymaelodi â'r Clwb? Mae'n bosib fy mod yn gofyn i rai sydd eisoes yn cefnogi'r Llais mewn gwahanol ffyrdd, ond byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech ystyried helpu yn y ffordd yma hefyd. Y tâl aelodaeth yw £12.00 y flwyddyn, ac fe delir hanner yr incwm allan yn wobrau i'r aelodau, a'r hanner arall yn mynd at gefnogi Llais Ogwan.

Diolch i'r rhai sydd eisoes wedi ymateb i'r apêl yma yn ystod mis Ionawr. Os gwelwch chithau eich ffordd yn glir i ymuno hefyd, byddwn wrth fy modd yn clywed oddi wrthyh.

Yn gywir iawn, Neville Hughes. (Trysorydd y Clwb), 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA.

Ffôn: 01248 600853

E-bost: [nev-hughes@btinternet.com](mailto:nev-hughes@btinternet.com)



**CYMRAG**

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,  
Yn rhifyn Ionawr o Llais Ogwen, 'roedd yn dda gweld y Cynghorydd Sirol Paul Rawlinson yn diolch i Gyngor Cymuned Bethesda am drefnu cael lloches bws yn sgwâr Rachub, yn enwedig gan nad yw Paul yn aelod o Gyngor Cymuned Bethesda. 'Roedd hyn wedi ymgyrch hir gan y Cynghorydd Cymunedol Godfrey Northam i gael lloches yno.

Dylid nodi bod y Cyngor Cymunedol wedi trefnu cael lloches bws wrth siop Spar, Bethesda, a gwaelod Braichmelyn, wedi ymgyrch gan y Cynghorwyr Cymunedol Ann Williams a Walter Williams, oherwydd bod rhestr aros Cyngor Gwynedd mor hir.

Hoffwn gael gwybod gan y Cynghorwyr Sirol beth a wnaethant i geisio lleihau rhestr aros Cyngor Gwynedd?

Yn gywir,  
Arsylwr.

[Cafwyd enw a chyfeiriad llawn  
Arsylwr. Gol.]



Annwyl Ddarllenwyr,  
Wedi darllen llythyr Edgar Roberts yn rhifyn mis Rhagfyr o'r Llais, hoffwn, er gwybodaeth, ddweud mai yn Gwynfryn yr oedd fy nghyfnither Sheila yn byw, ac nid ym Minllyn. Mae Sheila a'i gŵr, Michael, yn byw yn Stamford, Swydd Lincoln. Yn anffodus, bu chwaer Sheila, sef Patricia, farw yn ferch ifanc, gan adael gŵr a dau o blant. Symudodd y teulu a Nain yn y lle cyntaf i Fiwmares, ac wedyn i Fangor, lle 'roedd fy ewythr yn reolwr Banc Lloyds. Eglwyswyr oedd teulu Sheila, ac yn aelodau o Eglwys Glanogwen. Aelodau yng nghapel Bethania oedd Doctor Lumley a Mrs Roberts.

Mae Edgar yn sôn am ei amser yn chwarae snwcer yn y Clwb, neu'r Aelwyd fel y'i galwyd, a'r broblem cael gêm os oedd aelodau hŷn na ni eisiau bwrdd! Cefais y fraint o gael fy newis i chwarae yn y tîm pan oedd Meirion Hughes yn gapten, a chawsom lawer o hwyl yn teithio yn nhacsi Freddie Ward i gemau oddi cartref.

Cefais lawer o hwyl hefyd yn llawr cyntaf yr Aelwyd wrth ddysgu dawnsio gwerin yn



nosbarth Mrs McCarter, ac wyth ohonom yn cael ein dewis i gystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhwlheli: Heulwen Davies, Elsie Jones, Joan Brotherton, Edwina Williams, Meirion Hughes, Wyn Evans, Cecil Jones a minnau. Yn anffodus, ni chawsom fynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol!

Tra'n sôn am yr Urdd, cofiaf dîm pêldroed yr Aelwyd yn ennill Cwpan yr Urdd am y tro cyntaf, a'r unig dro.

Wrth orffen, hoffwn ddymuno blwyddyn newydd well i bawb.

Yn gywir,  
Gareth Jones



# Gwyrddni

Mae cyfle newydd a chyffrous i ni, bobl Dyffryn Ogwen, i gael dweud ein dweud am ddyfodol ein cymunedau. Yn y deng mlynedd nesaf, un o'r heriau mwyaf fydd yn ein wynebu ni



ydi newid hinsawdd, a dyna pam bod GwyrddNi yma! Gan gydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen, 'rydym am i bobl yr ardal hon ddod at ei gilydd i drafod, dysgu a mynd ati i wneud pethau yn lleol i daclo newid hinsawdd.

Y ffordd 'rydym am wneud hynny ydi drwy gynnal Cynulladau Cymunedol yn yr ardal dros y misoedd nesaf. Diwrnodau ar y tro lle bydd cyfle i wrando ar siaradwyr, trafod y materion a gwneud penderfyniadau ar y ffordd ymlaen.

'Rydym yn awyddus i gynnwys trawsdoriad o'r gymuned - felly hen, ifanc, siaradwyr Cymraeg, siaradwyr Saesneg, yn rieni, disgyblion ysgol, pensïynwyr, gyrrwyr bysus, ffermwyr, athrawon, gweithiwr siop, pobl sy'n poeni yn ofnadwy am newid hinsawdd, pobl sydd erioed wedi meddwl am newid hinsawdd...PAWB.

Mae ein ffurflen mynegi diddordeb bellach ar gael, felly ewch draw i www.gwyrddni.cymru am fwy o wybodaeth, neu codwch y ffôn ar Chris Roberts, Hwylsyydd Cymunedol yr ardal ar 07766793945.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:-  
Gareth Llwyd – 601415  
Neville Hughes – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22  
**Ewrop** – £30  
**Gweddill y Byd** – £40  
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN  
post@llaisogwan.com  
01248 600184

**L. Sturrs**  
a'i feibion  
sefydlwyd yn 1965  
**ADEILADWYR**  
Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda  
Ffôn: 600953  
lsturrs@googlemail.com

**BYSUS**  
*D. J. Owens*  
RHIWLAS  
01248 361044 a 07771 634195  
  
BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.  
**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**  
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

[www.llaisogwan.com](http://www.llaisogwan.com)  
Trydar: @Llais\_Ogwan

## Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

### Cydymdeimlo

Anfonwn ein cofion at Einir a Hefin Williams – bu farw brawd yng nghyfraith i Hefin, sef Gareth Thomas, gŵr ei chwaer, Jennifer, a oedd yn byw yng Llanrug.

Hefyd Ieuan a Donna, – bu farw cefnder i Ieuan, sef Clive Jones o Fethesda, a hefyd ei fodryb Glenys, chwaer ei fam, a oedd yn byw yng Nghaerdydd.

Bu John Austin yn byw yn Penrhyn Teras am rai blynyddoedd, – ‘roedd yn wreiddiol o Lundain ac wedi treulo amser yn Wrecsam a chyfnod ym Methesda hefyd. ‘Roedd yn un medrus â'i ddwylo ac yn un cymwynasgar. Mynychai Glwb Rhiwen, a gwirfoddoli gyda'r rheilffordd fach sydd ger yr orsaf ym Mhorthmadog. ‘Roedd ef ac eraill wedi adeiladu awyren ac yn ôl pob sôn ‘roedd wedi hedfan hefyd. Oherwydd gwaeledd gorfu iddo fynd i gartref ac yno y bu farw.

Hanai Morlais Williams o Riwlas, ond ymgartrefodd ym Methel ar ôl priodi â Delyth. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio fel pobydd yn Avana yng Nghaernarfon. ‘Roedd cefnder iddo, sef Gwynedd, wedi prynu becws yng Nghaerybi, ac fe aeth yno i weithio am rai blynyddoedd. Pan ddaeth ffatri Ferodo i Gaernarfon fe adawodd y pobi a mynd yno i weithio, ond ymhen amser daeth arwyddion nad oedd pethau yn rhy dda yno, ac aeth yn ôl i'w grefft wreiddiol, a gweithio mewn becws yn Llanllechid. Tra yno cafodd newyddion drwg am ei olwg, a ddirywiodd yn sydyn. Newidiodd ei fywyd pan gafodd gi tywys – Hetty oedd y cyntaf ac April oedd yr ail. Gyda chymorth y ci ‘roedd yn gallu mynd ar y bws, mynychu Clwb y Deillion, a'r Gymdeithas yng Nghapel Cysegr,

ac yn bwysig, bod yn annibynnol. Dirywiodd ei iechyd, ac wedi cystudd hir bu farw yn dawel yn Ysbyty Eryri yn 79 mlwydd oed. Mae'r golled yn fawr i'w wraig Delyth, a'r plant – Gethin, Rhian a Gwenan, a'r wyrion a'r wyresau, [a hefyd i'w chwaer, Iona *gol.*]. Hoffai'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist.

Bu'r angladd yng nghapel Saron, Bethel, gyda'r Parchedig Euron Hughes yn gwasanaethu, a Rhian Evans-Hill yn darllen o'r Beibl. Braff oedd gweld cymaint o ffrindiau a chyfoedion yn yr angladd. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Gyfeillion Ysbyty Eryri a sefydliad Cŵn y Deillion.

### ER COF AM MORLAIS WILLIAMS

Arfon House, ei hafan oedd, blin iddo brath blynyddoedd; os storm yn hel, roedd Delyth er y baich, heb wyro byth. Help llaw fu'r 'bedair pawen' aiff yn nos, ô'n ŵr ffon wen; yn y drin caed deuaud rhwydd, 'Ebrill' a'i warchod ebrwydd. Un llai heddiw 'mro Rhiwen, yn y clai rhoed hogyn clên; cwsg gaiff ym mynwent Pentir, o'i boen yn glyd, gweld yn glir.

*Richard Lloyd Jones*

### Yr Efaciwis

Mae rhaglen ddiddorol ar y teledu ar y funud am yr efaciwis, ac fel sawl pentref arall daeth rhai i Riwlas. Cofiaf Mam yn sôn am un a oedd gyda Nain a Taid. Bob hyn a hyn byddai'n derbyn parcel gan y teulu ac fe fyddai'n mynd yn syth o dan y bwrdd a bwyta'r cwbl. 'Roedd dwy chwaer hefyd yn Siop Uchaf – Hilda ac Elsi Rose. 'Roedd Marshal Yates yn Bronallt gydag Enid a John Elwyn Jones, gan aros gyda hwy am flynyddoedd a chael eu haddysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen, cyn mynd ymlaen i'r coleg,

Hefyd, bu un gyda Gwilym Pritchard a'i wraig. Yn sicr 'roedd mwy na hyn, a byddai'n braff cael mwy o wybodaeth - cysylltwch os gwelwch yn dda!

### Wordle

Mae'n debyg fod y gêm yma yn boblogaidd ar y funud, a bellach mae fersiwn Gymraeg ar gael o dan yr enw Hit -laith.

### Llyfr Glas Nebo

Mae'r llyfr gan Manon Steffan Ros yn boblogaidd iawn, a bellach wedi'i gyfieithu i'r Saesneg, ac wedi cael canmoliaeth gan y Wasg Seisnig. Llongyfarchiadau eto Manon!

### Brysiwch wella

Mae sawl un heb fod yn dda dros y cyfnod dyrys yma ac anfonwn ein dymuniadau gorau atoch. Bu Eunice Jones, Llethrau yn yr Ysbyty yn ddiweddar – 'rydym yn falch o ddeall dy fod yn gwella. Mae'n methu cael y Llais yn ddigon buan er mwyn gwneud y Croesair!

### Neuadd Bentref Rhiwlas

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn awyddus i ail gychwyn cyfarfodydd hanes lleol oedd yn boblogaidd cyn cyfyngiadau Covid-19.

### Taith Gerdded, Dydd Sadwrn, 26ain Mawrth

Cynhelir taith gerdded o dan arweiniad Cynrig o gwmpas rhai o safleoedd hanesyddol yr ardal. Bydd y daith yn cychwyn o'r Neuadd am 10.00am a bwriedir cyrraedd yn ôl tua 12.00pm. Mae esgidiau a dillad addas yn angenrheidiol. Bydd angen cyfyngu ar y niferoedd ac felly bydd angen archebu lle ymlaen llaw gan gysylltu gyda Cynrig drwy e-bost: cynrig@hotmail.co.uk

### Darlith, Nos Fawrth, 29ain Mawrth am 7.00pm

Teitl y cyflwyniad yw 'Bara Brith ar y Paith' ac mae'n dilyn hanes teulu a ymfudodd o Rhiwlas i Batagonia.

### Dathlu

Eleni mae'r Urdd yn 100 oed a daeth llu o atgofion i'm cof. 'Roeddem yn ffodus iawn yn Ysgol Rhiwlas, gan fod y ddiweddar Miss Dilys Jones yn ein hannog i ymuno â'r Urdd. 'Roeddem yn cystadlu yn yr Eisteddfod hefyd, - cydadrodd, dawnsio gwerin ac yn cystadlu yn unigol hefyd. Un o'r eitemau gorau gen i oedd y gân actol, wedi ei hysgrifennu gan Miss Jones. 'Roedd un am y tymhorau ac un arall wedi'i seilio ar fathodyn yr Urdd, ac Agnes a minnau oedd mewn gwisg wen yn dynodi ffydlondeb i Grist, mae'n debyg oherwydd mai Agnes a finnau oedd y ddwy dalaf ar y pryd. 'Roeddem yn llwyddo i fynd i'r Eisteddfod Sir gan amlaf. Tybed

a oes lluniau am y cyfnod yma gan rywun?

Yn yr wythdegau fe ffurfiwyd adran yr Urdd yn y pentref gan Cynrig a Carys Hughes Rallt, a Linda Jones, a Kate Owen a minnau yn arwain y gweithgareddau. Rhaid cofio hefyd am yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Nyffryn Ogwen ym 1986. Unwaith eto, buom yn cystadlu gyda chôr, dawnsio gwerin ac unigolion. Adrodd oedd Lleuwen Steffan ac Owain Arthur, heb fawr o ddiddordeb mewn cystadlu, ond mae'r ddau heddiw'n llwyddiannus iawn yn eu gyrfaedd. Aethom i Lanlllyni i gael bowllo 10, ac i Felin Llynonn hefyd. Byddai amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer pob tymor. Pwy sy'n cofio



y 3 P? - dyna oedd fy mhregeth ar ddechrau pob blwyddyn: presenoldeb, prydlondeb, parodrwydd.

Cefais brofiadau i'w cofio pan oeddwn yn Ysgol Dyffryn Ogwen, gan amlaf gyda chôr yr ysgol o dan arweiniad Ken Evans. Cofiaf

i ni fynd i un eisteddfod a mynd i neuadd yng Nghwm Twrch Uchaf a'r merched yn dod atom i gynnis llety i ni. Roeddwn i a Barbara Owen, Roberts gynt, yn aros mewn llety a gwely plu cyffyrddus yno. Cawsom lwyfan a dod yn ail, dw i'n credu.

## NEWYDDION O'R NEUADD

### SYSTEM WRESOGI NEWYDD

Mae system wresogi newydd bellach wedi ei gosod yn Neuadd Bentref Rhiwlas. Bu'r Neuadd ar gau ddiwedd Ionawr eleni tra bu'r system newydd yn dod i mewn ac ail-agorodd y Neuadd ar Chwefror 1af.

System wresogi olew fu yn y Neuadd ers ei hail-adeiladu o'r newydd gyda chymorth grant loteri ar droad y ganrif. Ar ôl ugain mlynedd o weithio 'roedd yn bryd newid y system oedd bellach ddim yn effeithiol, a'r dewis gerbron pwyllgor rheoli'r Neuadd oedd cael system olew newydd neu newid i ddefnyddio trydan. Gan fod penderfyniad o'r fath yn golygu defnydd posib o dros ugain mlynedd arall, y penderfyniad terfynol, wedi hir drafod a chydag adroddiad profesiynol, oedd newid i system drydan. Er nad yw'n bosibl heddiw ddarogan beth fydd prisiau cymharol olew a thrydan dros y degawdau nesaf, y teimlad oedd y bydd system drydan yn y Neuadd yn medru manteisio ar egni adnewyddadwy maes o law.

Mae 8 casét twymydd tanbaid (radiant

heaters) 2.4kW yr un nawr wedi eu gosod, 4 ar bob wal hir, i daflu gwres yn y brif neuadd – bron i 20kW i gyd. Mae'r neuadd rŵan yn cynhesu'n gyflym iawn. (O'r blaen, rhaid oedd troi'r gwres ymlaen awr neu fwy ymlaen llaw i gynhesu'r lle'n iawn.)

Yn ystafelloedd eraill yr adeilad (y Ystafell Gymunedol a'r Gegin a'r coridorau), mae gwresogyddion trydan mwy traddodiadol wedi eu gosod; ac mae panelau twymo tanbaid wedi eu gosod ar nenfydau'r toiledau.

Fel yn y gorffennol bydd angen i aelod o'r pwyllgor rheoli fod yn gyfrifol am droi'r gwres ymlaen a'i ddiffodd ar gyfer defnyddwyr y Neuadd.

Hoffem ddiolch i gwmni Jason Jô's o Lanberis am eu gwaith trylwyr yn gosod y system newydd hon yn y Neuadd.

### HOLIADUR DEFNYDDWYR Y NEUADD

Fis Medi y llynedd dosbarthwyd holiadur (yn y ddwy iaith) i bentrefwyr Rhiwlas yn gofyn am eu barn am y Neuadd. Dosbarthwyd hwn

ar bapur o amgylch y tai, ac ar lein. Cafwyd ymateb da, gyda thua 30% o garterfi'r pentref wedi llenwi ffurflen. Mae'r holiadur ei hun, y canlyniadau, a dadansoddiad o'r canlyniadau i'w gweld bellach ar wefan y Neuadd: <https://www.neuaddrhiwlas.cymru/holiadur-questionnaire/>

Mae'n amlwg o'r atebion a gafwyd bod canran uchel o drigolion Rhiwlas yn credu bod cael Neuadd Bentref lwyddiannus yn bwysig iawn i'r gymuned gyfan, yn enwedig o sylweddoli mai dim ond y Neuadd bron sydd bellach ar gael i gyfarfod â'ch cyd-bentrefwyr.

Ar ôl cyfnod cloi y Covid, mae'r Neuadd erbyn hyn yn prysur groesawu defnyddwyr hen a newydd – cyfarfod ar gyfer rhieni a babanod; Merched y Wawr; clwb Tennis Bwrdd; diwrnod Elfennau Gwyllt; Karate; Te a Chacen a Chlonc i'r rhai dros 60 oed; Yoga i ddechreuwyd, ac ati. Mae calendr y Neuadd: <https://www.neuaddrhiwlas.cymru/calendr/> yn rhestru'r digwyddiadau, a gwylwch dudalennau FB y pentref am fwy o fanylion.

## Perllannau Ogwen

Plannwyd 66 o goed ffrwythau eleni i gynyddu nifer coed Perllannau Ogwen ar sawl safle yn y dyffryn. Mae'r perllannau yn rhan o brosiect y Dyffryn Gwyrdd gan Bartneriaeth Ogwen. Bydd y coed yn darparu ffrwythau ffres am ddim i drigolion y dyffryn, a gallwn fod yn falch ein bod ni'n tyfu'n bwyd ein hunain, a hynny heb fawr o drafferth! Rheswm arall dros blannu coed ffrwythau yw gwella'r cynefin i anifeiliaid, o drychfilod i adar i famaliaid, sy'n gallu canfod bwyd a lloches mewn coed.

Cawsom y coed drwy garedigwrydd cartref gofal Plas Garnedd yn Llanfairpwll. Ychwanegwyd coed at ardd gymunedol Gardd Ffrancon a Chanolfan Tregarth. Hefyd, plannwyd rhai o goed yn stadau tai Bro Syr Ifor a Maes Bleddyn, ac yn y llyfrgell planhigion, gardd fach gymunedol newydd y Gerlan. Wedyn, plannwyd coed yn y Clwb Rygbi, sy'n gwneud llawer o waith i wella bioamrywiaeth ar eu tir, ac ar gae chwarae Rachub, lle 'roedd trigolion lleol wedi gofyn am wneud hynny er mwyn eu teuluoedd. Bydd yn braf, mewn blynyddoedd i ddod, i chwaraewyr Rygbi a phlant

Rachub gael ffrwyth wrth gael seibiant, neu fwynhau harddwch y blodau a'r ffrwythau ar y coed.

Cewch weld y safleoedd eraill ar fap sydd bellach ar hysbysfwrdd o flaen Llys Dafydd, un o dri hysbysfwrdd a gafodd eu creu gyda dyluniadau gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen.

'Rydym yn diolch i bawb a gymrodd ran, - y gwirfoddolwyr a roddodd o'u hamser a'u hegni, plant y cylch meithrin yn Nhregarth oedd mor frwdfrydig gyda rhaw a phridd, a'r grwpiau mudiadau oedd yn awyddus i blannu coed ar eu tir. Y peth nesaf fydd trefnu taith gerdded drwy berllannau'r dyffryn ym mis Mai pan fydd yr holl goed mewn blodau. Os hoffech wybod mwy



am y perllannau, neu bod yn rhan o grŵp sy'n trefnu cynnal a chadw a diwrnod gwasgu afalau, cysylltwch â ni!

### GWEITHGAREDDAU GARDDIO GDYDA PHLANT

'Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad gweithio gyda phlant

a garddio, a fyddai â diddordeb cydweithio wrth greu gerddi ac yn ysgolion y dyffryn. Hoffem hefyd ddechrau clwb garddio i blant. Os y gwyddoch am rywun, neu os oes gennych chi awydd eich hunain, cysylltwch â [judith@ogwen.org](mailto:judith@ogwen.org) i drafod syniadau a thelerau.



# Enwau Dyffryn Ogwen

Dafydd Fôn Williams



## GERLAN

Pentref a ddaeth i fodolaeth yn 1864/5, pan ryddhawyd tir Ciltrefnus a Chae Gronw ar gyfer adeiladu gan eu perchennog, John a Jane Taylor, Tanybwllch.

*BETHESDA. Building is carried on with activity on the Ciltrefnus estate, which was lately sold in building lots; and in a few months we shall see a small village on that side of the mountain.*

*North Wales Chronicle and Advertiser 30/7/1864*

Gellid honni fod y pentref wedi cymryd ei enw oddi wrth Tyddyn y Gerlan, sef y fferm 45 acer oedd yn yr ardal, yn terfynu gyda Chiltrefnus, Cymysgmai, Tanygarth, Ciltwillan, ac Abercaseg; mae'n weddol sier nad ar y Cae'r Ffynnon 5 acer, a nodir yn rhan o'r fferm yn 1768, y codwyd Stryd y Ffynnon, gan fod map Arolwg Degwm 1838-40 yn dangos yr holl dir ble saif Stryd y Ffynnon yn eiddo i Ciltrefnus (neu'n fanwl gywir, Cae Gronw). Gan nad adeiladwyd yr un o dai'r pentref newydd ar dir fferm Gerlan, mae'n fwy tebygol fod Tyddyn y Gerlan wedi cymryd ei enw oddi wrth ei leoliad daearyddol, gan mai disgrifad daearyddol

yw 'gerlan'. Yn wir, ym mhapur newydd Cymry America 'Y Drych' yn 1854, y mae cyfrannwr dienw yn nodi iddo gael ei fagu yng Nghiltrefnus, ac mai 'un o ardal Gerlan' ydyw. Gan nad oedd y pentref yn bodoli bryd hynny, ar wahân i 5 o dai Rhos Gerlan (oedd wedi datblygu o adeiladau fferm Gerlan), a thai Gwernydd, mae'n debygol mai'r ardal gyfan yw 'gerlan', ac mai daliad yn yr ardal honno oedd Tyddyn y Gerlan. Ar y llaw arall, gellir dilyn yr enw fel a ganlyn. Er fod Arolwg 1768 o diroedd y Penrhyn yn dangos 'Gerlan' fel un daliad o 45 acer, mae Cyfrifiad 1851 yn dangos dau ddaliad, Gerlan Farm yn 49 acer, a Gerlan Isaf yn 27 acer, ond nid oes gennyf sicrwydd, ar hyn o bryd, o ble y daeth y tir ychwanegol. Yng Nghyfrifiad 1841 gwelir fod gweithwyr a theuluoedd wedi tyrru i'r ardal, a hynny heb dai ar eu cyfer, gyda'r canlyniad fod llawer yn byw mewn beudai ac adeiladau ffermydd. Mae 18 o bobl, yn weithwyr unigol, a theuluoedd, yn byw ym meudai fferm Gerlan, a nodir y beudai fel 'Outhouse No1', 'Outhouse No 2', ac ati. Erbyn Cyfrifiad 1851 mae'r rhain yn dai cydnabyddedig, yn cael eu

galw yn Gerlan. Pan godwyd y pentref newydd yn 1864/65 ar dir Ciltrefnus a Chae Gronwy, cymrodd yntau'r enw Gerlan, a daeth y 5 tai yn Rhos Gerlan, ond ar lafar yn lleol aethant yn Hen Gerlan.

Mae Syr Ifor Williams yn nodi mai 'cerdd' yw 'gris', 'step', gan ddweud mai enw gwreiddiol y Gogarth, ger Llandudno, oedd Gogerdd, sef gris tuag at i fyny, ac mai Gogerddan, yng Ngheredigion, yw 'gris fechan'. Byddai 'Cerddlan' (> gerlan, y gerlan) yn golygu 'tir yn codi oddi wrth glan afon fel grisiau'.

Clywais esboniad lleol ar yr enw fel 'ger yr Elain'. Ar wahân i'r ffaith nad yw hynny'n gywir, ni fyddai'n addas i'r Gerlan oedd ar dir Penylan ym mhlwyf Llandygai, ar dir yn codi o lan Cegin, y cae o'r enw Gerlan Bach, oedd ar dir Bryn Twrwr, Tregarth, nag ar y ddau Gerlan sydd ym mhlwyf Llanddaniel Fab ym Môn, na'r Gerlan yn Llanfairfechan. Gerlan oedd enw un o gaeau Wern, Llanllechid, ac roedd Gerlan Bach ar dir Pant y Gwair; gan fod y ddau ddaliad yma yn terfynu ar ei gilydd, mae'n fwy na thebyg mai rhannau o'r un nodwedd ddaearyddol ydynt.

## Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,  
16 Pentref, Llandygái, Bangor  
LL57 4HU (01248 354280)

### Diolch

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Gyngor Gwynedd am drefnu i gwmni 'Gwalch' Penygroes osod ffens newydd o amgylch y parc yn y Pentref. Mae'r gwaith yn arbennig iawn.

I hysbysebu yn  
Llais Ogwan,  
**Neville Hughes**  
600853

## Eglwys Sant Tegai, Llandygái

### Ymweliad Archesgob Cymru

Mynychodd sawl aelod o gynulleidfa St Tegai y gwasanaethau un ai yn y Gelli Tregarth neu yn Eglwys Glanogwen pan bregethodd Archesgob newydd Cymru, Andy John. Cafwyd cyfle i'w longyfarch yn bersonol. Bydd sylw arbennig i Esgobaeth Bangor ac i'r Gadeirlan yn sgîl ei apwyntiad.

### Raffl Santes Dwynwen

Erbyn diwedd mis Chwefror, bydd enillydd Iwcus Raffl Santes Dwynwen wedi mwynhau'r cynnwys, sef potel o siampên a gwobr rhamantus arall! Diolch i bawb a werthodd ac a brynodd y tocynnau o dan amodau digon anghyfleus.

### Addoliad

Bydd yr eglwys, wrth gwrs, yn dal ar gau yn ystod misoedd y Gaeaf a'r Gwanwyn 2022, tra bydd y gwaith gohiriedig yn mynd ymlaen ar y waliau mewnol ger yr allor. Diolch i eglwysi Bro Ogwen

am eu croeso parod i gynulleidfa St Tegai. Gweler fanylion unigol am wasanaethau gan Eglwysi St Cross Talybont, St Cedol Pentir, Crist Glanogwen, Gelli Tregarth a Santes Fair Mynydd Llandegai. Diolch i'r Archddiacon Mary Stallard am y myfyrdodau wythnosol.

### Llywodraethwyr Ysgol Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod drwy gyfrwng Microsoft Teams i Lywodraethwyr yr ysgol ar Ionawr 18fed, pan gyfrannodd cynrychiolwyr yr eglwys, sef Ann E Williams, Edmond Douglas Pennant a Rhian Llewelyn Jones, i'r trafodaethau.

### Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 neu 07779418007 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

## Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)  
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Bywyd newydd

Pleser mawr bob amser yw croesawu bywyd newydd i'n plith. Mae'n codi calon y gymdogaeth i gyd, yn enwedig yng nghanol dyddiau tywyll Covid 19.

Ar Ionawr 13eg, ganwyd merch fach i Natasha, 12 Dolhelyg, a'i chymar, Jez.

Cefais gip arni y dydd o'r blaen, ac mae hi'n ddigon o ryfeddod. Mae un peth yn sicr, bydd Abbie, Sophie, Ryan ac Alexa, ei brawd a'i chwirydd hŷn, yn gwneud yn siwr na chaiff Laila Sky byth gam. Maen nhw wedi mopio efo hi. Llongyfarchiadau, hefyd, i Liz, 6 Lôn Ddŵr (mam Sasha) ar ddod yn nain am y trydydd tro ar ddeg.

Dri diwrnod ynghynt, daeth Sandra a Keith, 13 Dolhelyg, yn nain a thaid unwaith eto; y tro hwn i Elise Christine, plentyn cyntaf eu mab ieuengaf, Dylan, a'i gymar Courtney. Mae hithau'n ddigon o sioe, ac wedi dod i godi calon teulu hynod o garedig, sydd wedi profi amser anodd iawn yn ddiweddar.

Mae arna'i ofn y bydd yn rhaid i Gwen a Wyn Bowen Harries, 1, Tyddyn Cottages, deithio ychydig pellach na Liz, Lôn Ddŵr i weld eu hwyres hwythau. Ar Ddydd Calan, daethant yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Eira i'w mab, Rhys, a'i gymar Jenna, sy'n byw yn Musselburgh yn yr Alban. Drwy wyrth 'Facebook', cawn un ac oll dystio i brydferthwch Eira fach ac wrth gwrs, mae Nain a Taid wedi gwneud y siwrnai hir i'w gweld yn barod. Pob bendith ar y tair geneth fach, ac ar eu teuluoedd.

### Teulu newydd

Rhaid ymddiheuro i Cathy, James, Lola a Paddy. Maent yn byw yn 'Groeslon', ddrws nesaf i Eglwys S. Cross, ers rhai misoedd ond, oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, ni chawsom gyfle i'w hadnabod yn iawn. Gyda dyfodiad y Gwanwyn, a'r llacio a ddaw

## Capel Bethlehem

*Bwrlwm Bethlehem*

Gobeithiwn gynnal ein cyfarfod cyntaf ers 2 flynedd ar bnawn Iau, 3 Mawrth am 2.15.

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

20 Chwefror: Parchg. Trefor Lewis, Bae Colwyn.

27 Chwefror: Y Gweinidog.

6 Mawrth: Mr. T. Alun Williams, Caernarfon.

13 Mawrth: Y Gweinidog.

20 Mawrth: Parchg. Geraint Roberts, Llandegfan.

27 Mawrth: Y Gweinidog.

Croeso cynnes i bawb. (Rhaid gwisgo mwgwd.)

(gobeithio) ar y rheolau, siawns na chawn feddwl am gymdeithasu unwaith eto.

### Canu gyda fy Arwr

Braf iawn oedd gweld Ceri, 18 Bro Emrys yn cymryd rhan yn rhaglen boblogaidd Rhys Meirion, 'Canu gyda fy Arwr'.

Osian Candelas oedd yr 'Arwr' y nos Sul honno, a chais wedi mynd o Ysgol Pendalar, Caernarfon, i rai o'r plant hŷn gael canu efo fo. Roedd Ceri wrth ei bodd yn dawnsio, ac yn cadw'r rhythm yn ardderchog ar y tamborín yn 'band newydd' Osian ac Ifan - 'Candalar'. Profiad bythgofiadwy, yn siŵr, i'r bobl ifanc, ac i hogiau Candelas hefyd.

### Adre'n ôl

Croeso adref i Sheila, Millbank, sydd wedi treulio saith wythnos yn yr ysbyty. Mae'n braf dy gael di'n ôl, Sheila. Pwyll bia hi 'rwan - go iawn, y tro hwn!

### Diolch

Dymuna Eirlys a'r teulu ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd atynt yn eu profedigaeth o golli Owena annwyl.

Derbyniwyd rhoddion hael yn ddiolchgar

tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Yr un modd, diolch i'r Parchedig John Pritchard am wasanaeth teimladwy a chlodwiw, ac i Gareth, yr organydd, yng Nghapel Glanrhyd.

Bu'r cyfan yn gysur ar adeg trist.

### Yn yr Ysbyty

Anfonwn dymuniadau gorau at Bill Morrell, 4 Dolhelyg, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Brysiau wella, Bill!

### Pasio prawf

Llongyfarchiadau i Sam Anderson, 69 Bro Emrys, ar basio ei brawf gyrru. Dymunwn flynyddoedd o yrru'n hapus a diogel i ti, Sam. Bydd cael gyrru car, a fan, yn gaffaeliad mawr yn dy waith fel saer coed.

### Clwb Coffi Newydd

Mae'r cynghorydd Dafydd Meurig, drwy gydweithrediad â swyddogion Capel Bethlehem, wedi sicrhau arian grant i gynnal nifer o foreau coffi yn y pentref.

Prif nod y grant, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd, yw annog pobl dros 60 oed i ail afael mewn bywyd cymdeithasol drwy drefnu digwyddiadau lleol rheolaidd.

Cynhelir y bore coffi cyntaf yn festri capel Bethlehem, fore Gwener, 4ydd Mawrth am 10.30, felly dewch draw bawb am banad, bisged, a sgwrs!

**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**



**A.G.L.**  
Lloriau

**Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.**

**Andrew G. Lomozik B.A.**  
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909



# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



**Bethesda 01248 600045**  
**Caernarfon 01286 676070**  
**Llangefni 01248 751677**

Cludiant am ddim yn lleol  
Stoc helaeth ac amrywiol  
Staff cyfeillgar a phroffesiynol  
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

**Mynytho 01758 730768**  
**Llanrwst 01492 640794**  
**Caergybi 01407 728728**

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst**

# Gwefan newydd Llechi Cymru yn rhoi cyfle i chi rannu eich hanesion chi

Gyda chwe mis ers dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru gan UNESCO, mae gwefan newydd [www.llechi.cymru](http://www.llechi.cymru) yn cynnig cyfle i bobl yr ardal rannu eu profiad nhw o bob agwedd o fyd y llechi.

Drwy nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bu cydweithio rhwng Adran Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Gwynedd, er mwyn creu gwefan ddifyr, lliwgar a defnyddiol.

Mae'r wefan yn rhannu'r stori yn ffeithiol gywir, yn ddifyr ac ar ffurf hawdd i'w ddeall a hynny trwy fideos, lluniau, mapiau, gwybodaeth ymweld ac adnoddau eraill.

Dywedodd y Cyngorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd:

"Mae 'na lot mwy i lechi na toeon tai, ac rydan ni'n awyddus i weld y wefan yn gyfle i gysylltu gyda phobl yr ardal er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu eu straeon a'u profiadau.

"Ar y wefan newydd, mae'r dudalen 'Pobl y Llechi' yn ein cyflwyno i unigolion sy'n gweithio neu wedi eu hysbrydoli gan bob agwedd o'r diwydiant neu'r dirwedd.

"Rydym yn annog cyfraniadau gan bobl leol



sydd â cysylltiad llechi i rannu eu storïau gyda ni fel lleisiau lleol i'w cynnwys ar ein gwefan trwy gysylltu ar [llechi@gwynedd.llyw.cymru](mailto:llechi@gwynedd.llyw.cymru)"

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys chwe ardal allweddol: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn), Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig, Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle, Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor, y Rheilffyrdd a'r Felin, Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog, a

Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tallylyn.

Mae'r dirwedd yn adrodd stori anhygoel esblygiad cymdeithas amaethyddol yr ucheldir i un a ddominyddir gan y diwydiant llechi; gyda threfi, chwareli a chysylltiadau trafniadaeth yn cerfio'u ffordd trwy fynyddoedd Eryri i lawr tuag at y porthladdoedd eiconig.

Penderfynodd UNESCO yng Ngorffennaf 2021 fod Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn haeddu statws Safle Treftadaeth y Byd. Golygir hyn fod yr ardal yn Dirwedd Ddiwylliannol wirioneddol bwysig, yr un mor bwysig â'r Taj Mahal, neu Gôr y Cewri. Mae'r ardal yn ymuno â Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte i gydnabod cyfraniad rhagorol Cymru i'r Chwyldro Diwydiannol.

Mae'n ymuno â Chestyll a Waliau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd fel ail safle Treftadaeth y Byd Gwynedd. Datblygodd Cyngor Gwynedd y cais, ar ran sawl rhanddeiliad.

I weld yr hyn sydd gan y wefan newydd i'w gynnig neu os am gyfrannu, ewch i [www.llechi.cymru](http://www.llechi.cymru)

## PLAID CYMRU CANGEN DYFFRYN OGWEN

### CYFARFOD BLYNYDDOL 2022

Cynhelir y cyfarfod blynyddol am 7 o'r gloch nos Fawrth 22 Chwefror. Oherwydd bod lefelau Covid yn dal yn uchel yn yr ardal, byddwn yn cynnal y cyfarfod dros Zoom unwaith eto eleni. Croeso i bawb. I gael y ddolen at y cyfarfod, anfonwch e-bost at [PaulJRowlinson@outlook.com](mailto:PaulJRowlinson@outlook.com).

Mae ein sylw yn troi at yr etholiadau lleol ym mis Mai ac mae Pwyllgor Ymgyrch y Gangen wedi cyfarfod i baratoi at yr ymgyrch gyffrous sydd o'n blaenau.

Mynychodd nifer o aelodau'r gangen gyfarfod o Bwyllgor Etholaeth Arfon lle cawsom adroddiadau gan ein Haelod Seneddol, Hywel Williams, a'n Haelod o'r Senedd, Siân Gwenllian. Er bod llawer o egni Llywodraeth Doriaidd San Steffan yn mynd ar geisio amddiffyn y digwyddiadau cywilyddus yn ystod y cyfnod clo, clywsom am fesurau eraill sydd ar y gweill, fel y Mesur Plismona a Llysoedd. Bydd hyn yn cyfyngu yn sylweddol ar hawliau dinasyddion i brotestio ac

roeddem yn falch o glywed Hywel Williams yn siarad yn gadarn yn erbyn y mesur o flaen cannoedd o bobl mewn rali ym Mangor.

Mae gan Siân Gwenllian rôl allweddol yn Senedd Cymru fel dolen gyswllt rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth Lafur wrth sicrhau bod y cytundeb partneriaeth rhwng y Blaid a'r Llywodraeth yn cael ei wireddu. Nid clymblaid mo hwn; ni fydd gweinidogion Plaid Cymru yn y Llywodraeth a'r Llywodraeth fydd yn gyfrifol am weithredu ar

y 46 elfen sydd yn y cytundeb. Roedd aelodau'r gangen yn falch o glywed y bydd y cytundeb yn fodd o gyflawni llawer o bolisiau'r Blaid fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl, megis cinio ysgol am ddim i bob plentyn cynradd ac ymestyn gofal plant am ddim i pob plentyn dwy oed, cyfundrefn treth gyngor fwy teg, hyrwyddo'r Gymraeg ac amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg, a champau pendant i amddiffyn yr amgylchedd a hyrwyddo bioamrywiaeth.

### CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

### Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

### J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.  
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

[jtemplemorris@btinternet.com](mailto:jtemplemorris@btinternet.com)



## Glasiñfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966)  
mairpenybryn@gmail.com

### Cydymdeimlad

Ar 17 Ionawr yn ei chartref, 20 Caerhun, bu farw Mrs Mair Banham, yn 83 oed. 'Roedd Mair yn ferch ei milltir sgwar, wedi ei magu ym Mhen Cefn, Pentir cyn symud efo'i thad a'i mam, Mrs a Mrs Tom Griffiths, i gadw Tŷ Capel Caerhun, a phriodi â'r diweddar David Banham, gan symud i fyw i Gaerhun. Bu'n aelod ffyddlon o Sefydliad y Merched yng Nglasiñfryn ac yn aelod selog o'r dosbarthiadau loga. Hithau, fel ei thad, yn arddwr o fri. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r plant, Wendy a Peter, ei chwaer Nesta, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

### Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri, Waen Wen, sydd wedi bod am driniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Abergele yn ddiweddar.

### Y Ganolfan

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Ganolfan fore Sadwrn, 12 Mawrth am 10.30yb.

Mae hwn yn gyfarfod agored a chroeso mawr i bawb fynychu.

## Gair neu ddau – John Pritchard

# BRWSH NEWYDD, A MWY

Am wyth o'r gloch noson olaf mis Ionawr mae gan y clybiau pêl droed dair awr cyn i'r 'ffenestr trosglwyddo' gau. Tua'r un amser sydd gen innau i sgwennu'r erthygl hon; ac felly mi gadwaf lygaid ar y cloc ar y silff ben tân. Anrheg gan Glwb Pêl Droed Llanberis oedd hwnnw ar achlysur trosglwyddiad o fath yn fy hanes innau, pan euthum i Abersoch yn weinidog. Dyw'r ysgythriad ar lechen y cloc ddim mor amlwg erbyn hyn, ond mae'r cloc yn dal i fynd. Os mai'r un cloc ydi o!

Un o olygfeydd mwyaf cofiadwy *Only Fools and Horses* oedd yr un y mae Trigger ynddi'n canmol y brwsllawr y bu'n ei ddefnyddio ers ugain mlynedd. Yr un brwsllawr iddo gael 17 pen newydd ac 14 coes newydd! Fedra i ddim cystadlu â Trigger, ond bu raid i mi osod cloc newydd yn y cas llechen flwyddyn neu ddwy yn ôl. Ai'r un cloc ydi o felly?

Mi wêl unrhyw un sy'n craffu ar yr ysgythriad mai'r un cloc ydi o. Ac eto nid yr un, gan fod y cloc gwreiddiol wedi torri a'i daflu ac un newydd wedi ei osod yn ei le. Gellid dweud peth tebyg am Gristnogion a'r natur newydd a roddir iddynt trwy Iesu Grist. Y Testament Newydd sy'n dweud: 'Os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma' (2 Corinthiaid 5:17). Mae hyn mor wir am yr un a ddaeth i greu yng Nghrist yn dawl a digynnwrf ag ydyw am yr un a

ddaeth i ffydd yn y modd mwyaf dramatig. Mae'n wir am bob un sy'n credu â'i holl galon yn y Gwarddwr; rhai all gyfeirio at union ddydd ac awr y daethant i greu a rhai nad oes ganddynt y syniad lleiaf pryd y gwnaethant hynny.

Ar un wedd, yr un bobl ydym a gall eraill edrych arnom a'n hadnabod. Yr un o ran llais a phryd a gwedd; yr un mewn cymaint o ffydd. Ac eto nid yr un gan ein bod yn 'greadigaeth newydd'; ac fel dywed yr adnod nesaf, 'gwaith Duw yw'r cyfan'. Rhan o neges syfrdanol y Beibl yw bod pawb sy'n credu yn Iesu Grist wedi ei wneud yn newydd. Oherwydd nid peth naturiol i neb yw'r credu hwn. Nid rhywbeth a gawn ar ein genedigiaeth neu a etifeddwn ydi ffydd yn y Gwarddwr ond rhywbeth a roddir i ni gan Dduw. Mae ffydd yn beth mor fawr, a derbyn ffydd fel rhodd yn beth mor fawr fel mai'r unig eglurhad digonol am y rhai sy'n berchen arni yw 'greadigaeth newydd'.

I Trigger, yr un brwsllawr fu ganddo ers ugain mlynedd, ond mewn gwirionedd cafodd sawl brwsllawr newydd. Yr un cloc sydd gen i, ac eto mae'n gloch newydd. Yr un hefyd yw'r Cristion o ran enw a phryd a gwedd, ond y mae ei ffydd yn Iesu Grist wedi ei wneud yn berson newydd: newydd ei galon, newydd ei olwg ar fywyd, newydd ei dueddiadau, a newydd ei serchiadau at Dduw ac at bobl eraill.

## PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Ar ddechrau Mis Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod pob-aelod o Blaid Lafur Arfon, gyda nifer o Ddyffryn Ogwen yn bresennol. Yn gyntaf, derbyniwyd adroddiad o Bwyllgor Gwaith mis Rhagfyr. Yna, etholwyd trysorydd newydd ( sef K.C. Gordon, Corbri, Llanllechid) sydd wedi cael profiad helaeth o archwilio llyfrau'r gangen leol.

Wedyn, penderfynwyd ar y cynnig i'w anfon ymlaen i Gynhadledd Cymru'r Blaid Lafur yn Llandudno ar ddechrau mis Mawrth ac enwau'r ddau gynrychiolydd a fydd yn y gynhadledd.

Yn ogystal â hyn, trafodwyd adroddiad o Bwyllgor Llywodraeth Leol Gwynedd a'r etholiadau sirol a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mai eleni, gyda phum ward yn Nyffryn Ogwen, yn hytrach na phedair. Bydd pentrefi fel Glasiñfryn yn cael eu hychwanegu at Ward Arllechwedd, bydd

Ward Tregarth –Mynydd Llandygai yn aros fel y mae, ond bydd tair ward newydd yn ardal Cyngor Bethesda yn lle'r ddwy ward bresennol.

Bydd y Ward Rachub newydd yn cynnwys rhannau gogleddol o Fethesda ( y ffyn yw Lôn Newydd Coetmor ac ymlaen at Afon Ogwen), bydd y Ward Gerlan newydd yn cynnwys Carneddi i gyd, a bydd Y Ward Canol Bethesda newydd yn cynnwys gweddill Bethesda – fel y bydd tua'r un nifer o etholwyr ym mhob ward.

Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod deufisol o'r gangen leol a bydd adroddiad amdano yn rhifyn nesaf Llais Ogwan. Cynhelir y cyfarfod lleol nesaf ar y drydedd Nos Fercher ym mis Mawrth (Mawrth yr 16eg), sef wythnos ar ôl cyfarfod pob-aelod nesaf Plaid Lafur Arfon, a chynhelir bore coffi ar ddechrau mis Ebrill yng Nghanolfan Cefnfaes.

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon  
(01248) 673616

Pwllheli  
(01758) 703000

## Arfbais Douglas Arms Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Sul, Llun a Mawrth – wedi cau  
Mercher, Iau a Gwener 18.00 – 23.00  
Sadwrn 15.30 – 23.00

01248 602537



## Ysgol Bodfeurig

### Gwersi Rygbi

Mae plant blynyddoedd 2 i 6 wedi mwynhau ail ddechrau eu gwersi rygbi gydag Osian o Ysgol Dyffryn Ogwen. Er gwaethaf y tywydd oer mae pawb wrth eu boddau y tu allan yn dysgu sgiliau newydd bob wythnos. 'Rydym yn ffodus i gael rhannu profiadau ac arbenigedd fel hyn yn y dalgylch.

### Pen-blwydd yr Urdd

'Roedd bwrlwm yn yr ysgol wrth i bawb ddatlu pen-blwydd yr Urdd yn 100 oed! Dysgodd pawb gân Hei Mr Urdd! ar gyfer ymgais torri record byd yn ogystal â gwisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd ac ymuno gyda pharti arbennig ar lein. Diolch i'r Urdd am y profiadau gwych y maent wedi ei cynnig i blant yr ysgol dros y blynyddoedd.



Dyma ddosbarth Idwal yn ymuno gyda pharti pen-blwydd Mr Urdd

### Gwyllo Adar

Fel rhan o'u thema ar y byd mawr crwn bu dosbarth Idwal ar daith natur i chwilio am a gwrando ar adar. Gwelwyd nifer fawr iawn o adar a gwnaeth pawb waith arbennig yn nodi pob un ar eu rhestr.



## Partneriaeth Ogwen

Fel rhan o ymdrechion y Bartneriaeth i leihau ôl-troed carbon y gwaith, ac i gynnig cyfle i drigolion yr ardal symud tuag at drafndiaeth mwy amgylcheddol gyfeillgar, cynhaliwyd diwrnod ceir trydan yng Nghefnfaes ar Ionawr 29ain.

Gyda'r peiriannydd ac arbenigwr ceir trydan o'r Sling, Ian Cook yno, a Dewi Roberts ac Anna Sethi o dîm y Dyffryn Gwyrdd ar gael i rannu eu profiad ymarferol o yrru'r ceir, cafwyd ymateb da, gyda sawl un yn holi am bosibiliadau hurio'r cerbydau, lle a sut i'w gwefru, a hyd yn oed cyngor ar brynu car trydan o'r newydd.

Cyflwynwyd fflyd y Bartneriaeth, sef Carnedd - yr MG5 a ellir ei hurio drwy wefan Co-Wheels, Efan - y car addas i gadair olwyn, a Tryfan - y fan ddanfon sy'n cludo nwyddau Cadwyn Ogwen a Pantri Pesda. Ychwanegwyd at y bwrlwm gan CarNarfon - cerbyd Co-Wheels DEG a ddaeth draw o Gaernarfon, a diolch o galon i Ian am ddod â'i Tesla hefyd!

Am fwy o wybodaeth am geir trydan y Bartneriaeth cysylltwch â [menna@ogwen.org](mailto:menna@ogwen.org), a [huw@ogwen.org](mailto:huw@ogwen.org). I gael rhagor o fanylion am logi cerbyd Co-Wheels ewch i Co-Wheels/Bethesda.



## Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



**SAMARIAID**  
Gogledd Orllewin Cymru

## Cyfle i Wirfoddoli

### Ydych chi'n gallu gwrando ar bobl eraill?

- Gwledigaeth y Samariaid yw lleihau nifer y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad, ond rydyn ni'n cynnig cymorth emosiynol i bawb.
- Rydyn ni'n chwilio am ragor o wirfoddolwyr, yn arbennig siaradwyr Cymraeg, i ymuno â'n cangen ym Mharc Menai, Bangor.
- Bydd ein hyfforddiant cyfrwng Cymraeg nesaf yn dechrau ar 23 Ebrill 2022.

Am ragor o wybodaeth: Ffoniwch 01248 674984 neu e-bostiwch [recruiwtio@samariaidbangor.org](mailto:recruiwtio@samariaidbangor.org)

Gwefan: [www.samariaidbangor.cymru](http://www.samariaidbangor.cymru)

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



### Ymarferion yn ail gychwyn

Wedi'r clo byr yn dilyn pryderon yr awdurdodau ynghylch peryglon ymlediad yr amrywiolyn Omicron, mae Côr y Penrhyn wedi ail afael yn yr ymarferion ac fe gafwyd yr ymarfer cyntaf wedi'r Nadolig yng Nghapel Jeusalem ar Ionawr 31. Yn y capel hwnnw y bydd y côr yn ymarfer am rai wythnosau tra bydd atgyweiriadau ac addasiadau yn cael eu gwneud i Neuadd Ogwen.

### Recordio ar gyfer Radio 4

Yn yr ymarfer cyntaf hwnnw bu'r côr yn mynd dros drefniant Owain Arwel o'r emyn dôn 'Pembroke' gyda'r geiriau sy'n cychwyn fel a ganlyn, "Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod, bydd pob cyfandir is y rhod yn eiddo Iesu Mawr." Dyma'r emyn sy'n bennaf gysylltiedig â chwarelwyr Bethesda yn ystod Streic Fawr Chwarel y Penrhyn rhwng 1900-03. Mae Radio 4 yn bwriadu cynhyrchu cyfres o raglenni

Saesneg am rai o nodweddion mwyaf diddorol adeiladau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ynysoedd Prydain, ac 'roedd gan y cynhyrchwyr ddi-ddordeb neilltuol mewn un llun arbennig o'r chwarel sy'n crogi ar un o furiau Castell y Penrhyn.

Mae'r paentiad hwnnw'n dwyn i gof sut 'roedd y chwarel a'r gweithwyr oedd ynndi'n edrych yn y cyfnod cyn ac ar ôl y streic. 'Roedd y cynhyrchwyr hefyd am wybod beth oedd teimladau pobl Dyffryn Ogwen heddiw am yr hyn a ddigwyddodd dan oruchwyliaeth teulu'r Arglwydd Penrhyn. Aeth Dafydd Jones Morris ac Emyr Roberts ar ran y côr i gael eu cyfweled ac mae'n sicr y byddwn yn cael clywed ymatebion y ddau, yn ogystal â recordiad o'r côr yn canu 'Pembroke' ar y rhaglen. Gwylwch am y cyhoeddiadau ynghylch y gyfres yn y wasg ac yn arbennig yn Llais Ogwan.



Dafydd Jones Morris ac Emyr Roberts yn sefyll o boptu i'r hanesydd Neil MacGregor yng Nghastell Penrhyn gyda'r paentiad o'r chwarel gan Henry Hawkins a baentiwyd yn 1832.

### Rhodd er cof am Eilir

Derbyniodd y côr rodd eithriadol o hael er cof am y diweddar Eilir Glyn Jones o'r Rhiwlas. Roedd y swm o £500 yn cael ei gyflwyno fel arwydd o'r hoffter oedd gan Eilir o Gôr y Penrhyn a'i ddymuniad oedd cyflwyno rhodd i'r côr. Mae'r teulu hefyd yn dymuno cyhoeddi eu diolchgarwch i aelodau'r côr am eu cefnogaeth a'u geiriau o gydymdeimlad a chysur yn ystod gwaeledd Eilir.

## Canu am 50 mlynedd



Gareth Hughes sy'n canu gyda'r tenoriaid cyntaf

Yn rhifyn Ionawr Llais Ogwan cyhoeddwyd enwau a lluniau chwe aelod a fu'n canu gyda'r côr am 50 mlynedd. Yn anffodus, gadawyd enw un arall allan o'r rhestr honno, sef Gareth Hughes o Rachub sydd hefyd wedi bod yn aelod di-dor am dros hanner can mlynedd. Dymuna pwyllgor y côr ymddiheuro am y methiant hwnnw ac estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Gareth gan ddymuno blynyddoedd eto o ganu a mwynhad iddo fel aelod o'r côr.

### Cysylltiad agos ag achosion da'n parhau gyda £4370 yn cael ei godi i'r Hosbis

Fel y gŵyr darllenwyr y golofn hon yn dda mae Côr y Penrhyn wedi chwarae rhan fawr mewn cynorthwyo elusennau ac achosion dyngarol ledled y wlad. Fe gofiwch i'r côr berfformio yn Eglwys Gadeiriol Bangor cyn y Nadolig I godi arian at Hosbis Dewi Sant. Derbyniodd ysgrifennydd y côr lythyr gan Trystan Pritchard, Prif Weithredwr yr Hosbis, yn cyhoeddi bod dros £5000 o bunnau wedi ei godi yn y cyngerdd hwnnw a fydd yn mynd yn uniongyrchol at gynnal

gwasanaethau gofal diwedd oes i drigolion Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae Trystan wrth gwrs yn frodor ac yn un o drigolion Bethesda ac fe gyhoeddodd hefyd y bydd y côr yn cael gwahoddiad y gyfrannu at gyngerdd tebyg eto ddiwedd y flwyddyn hon.

### Cyngerdd Gŵyl Ddewi

Bydd cyhoeddiad nesa'r côr yng Nghlwb Golff Conwy ddiwedd y mis hwn, pan fydd aelodau'r clwb yn ciniawa i ddathlu gŵyl nawddsant Cymru. Hwn fydd y perfformiad cyntaf o flaen cynuleidfa fyw ers y cyngerdd i'r hosbis cyn y Nadolig.



post@llaisogwan.com

## Mynydd Llandygái

Iona Rhys, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan  
(602863) ionarhys@yahoo.co.uk  
Ffion Jones, 1 Llwybr Main  
Ffiff22@hotmail.com

### Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth William Frith, Tan y Bwlch, ar y 7fed o Ionawr – gŵr bonheddig, ac annwyl yng ngwir ystyr y gair. Cynhaliwyd ei angladd ar y 26ain o Ionawr yn Eglwys y Santes Fair, ac yn dilyn yn yr Amlogsgfa. ‘Rydym yn cydymdeimlo gyda’i deulu, sef Jim, Donna, Lee, Aaron, Anya a Guy.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ash Cooke, Cwm Hyfryd – cafodd ei waith ei gynnwys yn yr Arddangosfa Agored a gynhaliwyd yn Galeri, Caernarfon yn ystod y misoedd diwethaf. Mae’n braf gweld cymaint o dalent lleol!

Diolch hefyd i Rebecca Hardy-Griffith am drefnu’r arddangosfa wych.

## Ysgol Dyffryn Ogwen

### Cyfnod y Nadolig

Dyma gipolwg ar rai o brofiadau’r disgyblion yn ystod cyfnod y Nadolig. Diolch yn fawr i’r disgyblion am ddyfalbarhau a dangos gwytnwch arbennig ac i’r staff am yr ymdrech arwrol a difflino drwy’r tymor diwethaf. Yn ogystal, diolch i’r rhieni, llywodraethwyr a’r gymuned am eich cefnogaeth gyson.



## Holi Barn Steddfotwyr

Wrth i bwyllgorau eisteddfodau lleol ddechrau trafod ffyrdd i agor eu drysau o’r newydd eleni, mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru ar ran yr aelodau, yn lansio ymgynghoriad ar ffurf holiadur o’r enw “A fyddi di’n mentro nôl i’r llwyfan yn 2022?”. Y bwriad yw casglu barn ymhlith cefnogwyr a dilynwyr y digwyddiadau cymunedol yma sy’n rhan mor allweddol o’n diwylliant ar hyd a lled Cymru.

Nid ar chwarae bach mae trefnu eisteddfod, sy’n gwbl ddibynol ar lafur cariad ugeiniau o swyddogion sy’n rhoi o’u hamser yn frwdfrydig i lunio rhestrau testunau, trefnu rhaglen, lleoliad, beirniaid, gwobrwyon, lluniaeth ayb. Gydag arwyddion gobeithiol bod tro ar fyd o ran COVID-19 mae’r trefnwyr yma bellach yn awyddus i wybod faint o ddiddordeb sydd i gystadlu ar ein llwyfannau unwaith eto eleni, a pha elfennau fyddai’n apelio wrth gynllunio i’r dyfodol.

Wrth lenwi’r holiadur, bydd cyfle i unawdwyr, partïon, corau, grwpiau, dysgwyr, beirdd, llenorion a steddfotwyr o bob oed a chefnidir i fynegi eu barn a chynnig syniadau er mwyn helpu cynrychiolwyr y 120 o eisteddfodau lleol ystyried sut mae denu cystadleuwyr a chynulleidfa o’r newydd a dod â lliw a llwyddiant yn ôl i’n llwyfannau unwaith eto eleni.

Gellir dod o hyd i’r holiadur drwy ddilyn y ddolen ar [www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)

Dywed Megan Jones Roberts, Cadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru:

“Mae arwyddion gobeithiol iawn ymhlith ein pwyllgorau eleni, gan fawr obeithio bod y gwaethaf o COVID-19 y tu ôl i ni. Bydd yr ymgynghoriad yma’n gymorth mawr wrth i ni gynllunio i’r dyfodol. Fel Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, edrychwn ymlaen at gefnogi gwaith y pwyllgorau lleol wrth iddynt wynebu’r her a chynnig cyfle o’r newydd i greu bwrllwm cymunedol.”

## Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun, 14 Mawrth am 7 o’r gloch

DR. GWILYM OWEN  
Harri’r Wythfed a Chochwillan  
(Darlith Goffa Rhiannon Rowlands)

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem  
Cofrestrwch efo [garethllwyd197@btinternet.com](mailto:garethllwyd197@btinternet.com)

Rhithiol dros Zoom: Cofrestrwch efo [bethan@ogwen.org](mailto:bethan@ogwen.org)

Cofrestrwch erbyn 12 o’r gloch dydd Llun y ddarlith  
£1.50 wrth y drws, neu am ddim i aelodau.

## STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA  
GWASANAETH PERSONOL  
PEDAIR AWR AR HUGAIN  
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976  
Ebst: [stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com](mailto:stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com)



## Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)

**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)

**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

### Gwaeledd

Yn ystod wythnosau oer a gaeafol Mis Ionawr mae llawer ohonoch wedi bod yn cadw'n gynnes yn eich cartrefi ac mae'n siŵr fod rhai o drigolion y pentre wedi bod yn sâl ac eraill hwyrach mewn ysbyty. Gadewch i ni wybod os mai dyna'r drefn.

Daeth y newyddion fod William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion, yn Ysbyty Gwynedd ychydig ddyddiau wedi iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 98 oed. Anfonwn ein cofion ato gan obeithio y caiff ddod adre yn fuan.

### Cartref Newydd

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig fe symudodd Anwen Griffiths, Cysgod y Parc, Sling, i fyw i Ddwygyfylchi, er mwyn bod yn agosach at ei mab Hywyn, ei merch yng nghyfraith Rachel a'u merch fach Rhianwen. Nid yw wedi symud i'w chartref newydd eto ond mae'n byw gyda Hywyn a'r teulu hyd nes y bydd y tŷ yn barod. Un o Gaernarfon yn wreiddiol ydi Anwen ac wedi priodi Tom, Fferm Tanrhiw, ymgartrefodd y ddau yn Nolwen ac yna Cysgod y Parc. Pob dymuniad da i ti Anwen, a gobeithiwn dy weld yn ôl

yma yn Nhregarth yn achlysurol. Paid â bod yn ddiarth!

### Capel Shiloh Tregarth

Cynhelir gwasanaethau yn Shiloh am 5 o'r gloch bob nos Sul. Croeso mawr i bawb sy'n dymuno dod i'r oedfa.

Chwefror 20 – Trefniant Lleol

Chwefror 27 – Ellie Jones, Coed y Parc

Mawrth 6 – Richard Gillion

Mawrth 13 – I'w drefnu

Mawrth 20 – Philip Barnett, Sir Efrog

Mawrth 27 – Peter Cutts, Porthaethwy

Anfonwn ein cofion at un o'n haelodau sydd wedi symud o Dregarth i fyw yn Nwygyfylchi, sef Anwen Griffiths. Gobeithio y byddi yn hapus iawn yno ac y cawn gyfle i dy groesawu yn ôl yn fuan i Shiloh.

'Rydym fel cynulleidfa yn anfon ein cofion cynhesaf at ein cyn weinidog, sef y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon. Nid yw ef a'i briod Katie wedi bod yn dda ers tro byd a gobeithiwn yn fawr y cawn ei weld yn Shiloh pan ddaw yn wanwyn a'r tywydd yn gwella.

### Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Bydd yr aelodau yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, Nos Lun, Mawrth 7. Ar hyn o bryd mae trefniadau yn cael eu paratoi ar gyfer y dathliad ac am fwy o fanylion cyslltwch fel aelodau gyda Myfanwy Harper (362139) neu Alison Carden (600946)

Llongyfarchiadau mawr i Myfanwy a'r teulu yn Fferm Tŷ Newydd, Llandygai. Ganed

Yn yr Huw, brawd bach i Eric Idwal, mab i Iwan a Sally ac ŵyr i Myfanwy a Geraint.

### Croeso

Croeso mawr i'r teulu ifanc sydd wedi symud i fyw yng Nghysgod y Parc, Sling. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn yr ardal. Cydymdeimlwn gyda'r perchennog yn ei golled gan obeithio y gall gario ymlaen gyda'i fusnes Melin Goed fel cynt.

### Plannu Coed

Diolch i Judith Kaufmann am drefnu plannu coed yma yn Nhregarth ac o gwmpas Dyffryn Ogwen. Diolch hefyd i bawb a gymrodd ran, ac i blant Ysgol Tregarth am eu cymorth.

### Tân

Yn hwyr nos Sul, Ionawr 23, galwyd y Frigâd Dâni i Dregarth, oherwydd bod adeilad torri coed ar dir fferm Pandy ar dân. Yn wir fe'i llosgwyd yn llwyr, ac mae ymchwiliad ar droed i achos y tân. Mae'r sefyllfa'n hynod o drist i'r rhai sydd wedi bod yn gweithio yno ers rhai blynedd, ac sydd yn awr wedi colli'r cyfan.

Cydymdeimlwn gyda'r perchennog yn ei golled gan obeithio y gall gario ymlaen gyda'i fusnes Melin Goed fel cynt.

### EGLWYS Y SANTES FAIR

Gyda rheolau Covid yn llacio, 'rydym am fentro cynnal Te Crempog eleni, ac fel mae'n digwydd, mae Dydd Mawrth Ynyd ar yr un diwrnod â Dydd Gwyl Dewi Sant. Dewch, felly, i'n cefnogi – dydd Mawrth, Mawrth 1af, am i 1yp.

## Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid,  
Bangor, LL57 3LE  
(07887624459) henbarc13@gmail.com

### Camgymeriad diwrnod casglu gwastraff gardd

Cafodd rhai o'r trigolion lythyr gan Gyngor Gwynedd i ddweud y byddai'r gwastraff gardd mewn biniau brown yn cael ei gasglu ar Ddydd Iau. Gan fod y biniau gwyrdd a'r ail gylchu'n cael eu trin ar Ddydd Llun, ffônwyd Cyngor Gwynedd, a darganfod bod camgymeriad wedi digwydd h.y. bydd y biniau brown yn dal i gael eu casglu ar Ddydd Llun.

### Sbwriel

Gan fod llawer o sbwriel ar y grisiau wrth ochr 1 Maes Bleddyn oherwydd y gwynt a phlant yn chwarae yno, gofynnwyd am sylw arbennig gan gasglwr ysbwriel Cyngor Bethesda (sy'n hel mân ysbwriel lle nad yw casglwr ysbwriel Cyngor Gwynedd yn gweithredu) ac erbyn hyn y mae'n ymdangos bod y broblem wedi'i datrys.

Gwnaed ymdrech i ddenu mwy o ddarllenwyr Llais Ogwen yn Llwyn Bedw ac

erbyn hyn mae'r nifer wedi cynyddu o 5 i 10. Bwriedir gwneud ymdrech yng ngweddill Rachub yn yr haf.

### Dymuniadau

Dymunwn yn dda i Jenna Allsup, Llwyn Bedw sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae Jenna'n gobeithio dychwelyd i chwarae pêl-droed yn fuan.

### Etholiad Cyngor Gwynedd mis Mai

Yn yr etholiadau ar gyfer Cyngor Gwynedd yn mis Mai eleni, bydd Ward Arllechwedd yn cael ei hymestyn i gynnwys pentrefi fel Glasinfryn. Hefyd bydd ward newydd o'r enw Rachub, a fydd yn cynnwys Rachub, Hen Barc a rhan ogleddol Bethesda - y ffin yw Lôn Newydd Coetmor, Ffordd yr Orsaf ac ymlaen. Nid oes bwriad i newid ffiniau wardiau 'r cynghorau cymunedol ar hyn o bryd.

### Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Tegwyn Williams, Ystad Coetmor. Byddai plant a wyrion Tec yn mynychu Ysgol Sul Capel Carmel. Cydymdeimlwn ag Anne a'i blant Diane, Alison, Martin a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli dyn mor annwyl ar ôl salwch hir.

### Dathlu

Yn ddiweddar bu Yr Urdd yn dathlu canmlwyddiant y mudiad. Dyma rai o fechgyn Ysgol Llanllechid yn mwynhau wythnos yng ngwersyll Llangrannog tua 1983.

Yn rhes flaen y llun o'r chwith mae: Rhys Owain, Philip Davies, Geraint Northam, ?, a Dylan Griffiths. Yn y cefn o'r chwith mae: ?, a'r chwaraewr rygbi rhyngwladol enwog Scott Gibbs! Fedrwch chi enwi'r lleill tybed?



## Carmel Llanllechid

### Cydymdeimlo

Anfonwn ninnau ein cydymdeimlad at Anne a theulu'r diweddar Tegwyn Williams, Ystad Coetmor. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich hiraeth.

### Yr Ysgol Sul

Cafodd y plant i gyd becyn gwaith i'w wneud yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror. Un o'r tasgau yn eu pecynnau oedd gwneud lluniau o adar bach sydd i'w gweld yn eu gerddi nhw yn ystod tymor y gaeaf, yn arbennig felly yn chwilio am fwyd.

Gwelwn rhai o'r plant o flaen tŷ Cadi ac Iolo yn Llwyn Bedw gydag Elsi a Lili efo lluniau dau aderyn, a Beti efo llun o flodau. Ar ôl iddynt gael eu gorffen, bydd lluniau'r



adar yn cael eu harddangos yn y capel ar gyfer gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r plant a'r bobl ifanc ar 27 o fis Chwefror am 10:30.

### Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at aelodau sydd wedi bod yn symol, a'r rhai sydd wedi bod yn gaeth i'w cartrefi'r dyddiau yma. Cafodd Mrs Jenna Allsup, Llwyn Bedw, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd rai wythnosau yn ôl, ac mae hi wedi gwella erbyn hyn ac i'w gweld o gwmpas y lle unwaith eto. Mae Mrs Glenys Roberts, Hen Barc wedi bod yn cwyno ar ôl iddi syrthio yn ei chartref. Bu'n rhaid iddi fynd i Ysbyty Gwynedd a threulio amser wedyn ym Mhlas Ogwen i wella.

**BARBWR OGWEN**



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant gan Alison  
Rhaid gwneud apwyntiad.  
Ffoniwch: 07796 038824

**DAFYDD CADWALADR**

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

01248 605207

**Owen's Tregarth**

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn  
meysydd awyr  
Cludiant Preifat  
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475  
www.owenswales.co.uk

## Ysgol Llanllechid



### Ysgol Heddwch

Llongyfarchiadau i bawb yn Ysgol Llanllechid ar dderbyn tystysgrif fel cydnabyddiaeth o'r holl waith cynhwysfawr ar y thema heddwch. Mae'r maes hwn yn bwysicach nag erioed ar lefel ysgol, cymuned ac yn fyd-eang, yn enwedig wrth i ni weld tanciau wedi eu gosod yn rhesi ar ffin Yr Iwcrain. Ond, mae heddwch yn dechrau yn ein calonnau ni meddai ein disgyblion Bl 6. Dyma beth mae heddwch yn eu olygu i rai o'n disgyblion hynaf:

- Bod ar ben fy hun yn darllen. Ned.
- Dim cwffio, neb yn dadlau a dim rhyfel. Erin
- Bod yn chi eich hun. Isla.
- Teimlo'n braf tu mewn. Charlie.

### Dathliadau'r Urdd

Bu'r ysgol gyfan yn ymwneud â dathlu canrif o fodolaeth Urdd Gobaith Cymru. Yn 1922, dywedodd Syr Ifan ap Owen Edwards: "Yn awr, mewn llawer pentref a bron ym mhob tref yng Nghymru, mae'r plant yn chwarae yn Saesneg, ac yn anghofio mai Cymry ydynt." Dysgwyd yr hanes a chafwyd pob math o weithgareddau, gan gynnwys gwneud cacen arbennig i ddathlu'r achlysur pwysig hwn!



## Ail Gylchu ac Ail Ddefnyddio

Diolch i'r Grwp Eco am ein helpu yn y maes yma. 'Rydym yn cydweithio mewn partneriaeth â'r Warws Werdd, Antur Waunfawr, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo o nerth i nerth. Cofiwch ddod ag unrhyw hen ddillad, tyweli, cynfasau, blancedi, llenni, esgidiau, bagiau a beltiau draw i'n biniau glas sydd wedi eu lleoli wrth y brif fynedfa. Diolch!

### Blwyddyn Newydd Tseina

Cafodd y gilfach yn y dosbarth Meithrin ei thro'i'n fwyty Tseiniaidd, a chafodd ein disgyblion ieuengaf y cyfle i wisgo i fyny a mwynhau'r dathliadau.

### Partneriaeth Ogwen

Bu dosbarth Ms Gwenlli Haf, blwyddyn 6, yn gweithio gyda Menna Thomas, Christine Peake ac Elen Williams. Diolch am y gweithdai bendigedig a'ch sylwadau cadarnhaol am ein disgyblion.

### Clocio

Dyna hwyl agafwyd hefo Tudur Philips – llond neuadd o ddisgyblion yn clocio!

Mae gen i bâr o gloisiau  
A'r rheiny'n bâr go dda,  
Fe barant dros y gaeaf  
A thipyn bach o'r haf,  
Os cân nhw wadnau newydd  
Fe baran' dipyn mwy -  
Saith a dimai'r gloesen  
A phymtheg am y ddwy!

### Santes Dwynwen

Bu dosbarth Miss Elen Evans a Mrs Humphreys yn creu bisgedi heb eu hail, ac yn eu gwerthu i'r rhieni. Da iawn chi!

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern,  
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.  
(01248 602509 / 07789 916166)  
carenelaine@hotmail.com

**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan,  
Bethesda,  
LL57 3TY. (01248 601526)

### Er Cof Annwyl

Olwen Blackwell (Olwen Williams, Stryd y Ffynnon, gynt)

Ar 4ydd Ionawr yn sydyn ond yn dawel yn ei chartref, Greenbank Drive, y Fflint, bu farw Olwen yn 77oed, wedi cyfnod o gystudd yn dilyn llawdriniaethau.

'Roedd yn wraig annwyl i Tony, ac yn fam a mam yng nghyfraith gariadus i Geraint ac Alison a Gerallt a Lorraine, a hefyd yn nain arbennig i Danielle a Rebecca, Dylan ac Ella, a hen nain i Lola ac Evie.

Merch i'r diweddar Hari a Mary Williams, Stryd y Ffynnon oedd Olwen, a chwaer i Myrddin a Huw a'r ddiweddar Rhiannon.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher 19eg Ionawr yng Nghapel Caersalem, Y Fflint, ac yn dilyn hynny rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Bwrdeisdref Y Fflint.

Yn ôl dymuniad Olwen, cynhaliwyd casgliad, a'r arian i'w gyfrannu tuag at Uned Cancr Ysbyty Glan Clwyd.

Dymuna'r teulu anfon eu diolch i bawb wnaeth ddatgan eu cydymdeimlad â hwy yn dilyn y brofedigaeth o golli Olwen, a hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at yr Uned Cancr.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Tony a'r teulu, i Huw a Margaret Williams a'r teulu yn Erw Las, ac i Myrddin a'r teulu yn Clynnog.

# MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. LI. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**  
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**  
♦TEIARS A BATRIS♦  
**GWASANAETH TORRI I LAWR**  
**NEU DDAMWAIN**

☎ 600723  
Ffacs: 605068

## Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk  
(07443 047642)

Joe Hughes, Awel y Nant,  
Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

### Pen-blwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Carys McCarter, Ffordd Coetmor, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 28 Ionawr. Hefyd, mae'r un cyfarchion yn mynd at Anne Thomas, Maes y Garnedd, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 30 Ionawr.

### Priodas Aur

Ar 1af Ionawr 2022 dathlodd Owain John a Rhiannon Efans, Glanaber, Pant, 50 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi.

### Gair o Ddiolch

Dymuna Mrs. Rhiannon Efans, Glanaber, ddiolch o galon i bawb am yr holl ymholiadau tra bu yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth, ac wedi iddi ddod gartref. Mae hi hefyd am ddiolch i holl staff Ward Enlli, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal a'u caredigrwydd.

### Parti

Ar nos Wener, 28 Ionawr, yn y Clwb Criced, 'roedd parti wedi ei drefnu i Anne Thomas, Maes y Garnedd, ar yr achlysur hapus o ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed. Cafwyd noson

dda gyda digonedd o fwyd wedi ei baratoi gan Karen a Bethan, ac adloniant ardderchog gan Hogia'r Bonc. Noson i'w chofio!

### Ysbyty

Cofion cynnes at Carys Williams, Abercaseg, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella.

Clywsom fod Einir Jones, Bryntirion, wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Walton. Dymuniadau gorau i chi Einir!

### Cydymdeimlo

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar. 'Rydym yn anfon ein cydymdeimlad atynt i gyd:

Mr. a Mrs. Arwyn Oliver a'r teulu, Ffordd Bangor, yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl, sef y ddiweddar Mrs. Louisa Mooney, Bangor, a fu farw ar 16 Rhagfyr.

Huw a Margaret Williams a'r teulu, Erw Las, yn eu profedigaeth o golli chwaer i Huw, sef Olwen, oedd yn byw yn Fflint. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher, 19 Ionawr, yng Nghapel Caersalem a Mynwent Fflint.

Teulu'r ddiweddar Julia Bullock, gynt o Abercaseg, a fu farw ar 26 Ionawr yn Ysbyty Gwynedd. Cofion at y plant sef Michelle, Dion, Dewi, Iwan a Steffan.

Mrs. Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd, a'r teulu, yn eu profedigaeth fawr o golli ei brawd, Gwilym a'i briod yn yr Amwythig.

### Marwolaethau

*Gwynfor Jones*

Yn Ysbyty Gwynedd ar 27 Rhagfyr bu farw Gwynfor Jones, 1 Cil Geraint, St. Anne's, gynt o Fethesda, yn 83 mlwydd oed, priod annwyl Mrs. Margaret Jones, tad annwyl Graham, a brawd i Emllyn, Emrys a Dafydd. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 12 Ionawr, yn Eglwys St. Mair ac yna ym mynwent St. Anne's. Y Parchedig Huw John Hughes oedd yn arwain y gwasanaeth, gyda Mrs. Christine Davies wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch, Margaret a Graham, a hefyd at Mrs. Myra Ball a'r teulu.

*Derek Vaughan Gladwys*

Ar 28 Rhagfyr, yn Ysbyty Gwynedd, yn 71 mlwydd oed, bu farw Derek Vaughan Gladwys, Llanfairfechan, gynt o Fryntirion, Bethesda, priod y ddiweddar Freda a thad Nigel a'r diweddar Amanda a Derek. 'Roedd hefyd yn daid a hen daid hoffus, ac mae llawer yn cofio amdano yn galw heibio gyda'r fan bara! Bu gwasanaeth ei angladd ar ddydd Iau, 13 Ionawr yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Eglwys Coetmor, o dan arweiniad y Parchedig Sarah Roberts. 'Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â chwi fel teulu.

*Tegwyn Owen Williams*

Ar 12 Ionawr, yn ei gartref, 14 Ystad Coetmor, bu farw Tegwyn Owen Williams (Tec) yn 87 mlwydd oed, priod annwyl Mrs. Anne Williams, tad a thad yng nghyfraith i Diane ac Ifor, Alison a Dave, Martin a Sarah, a thaid hoffus i Heledd, Tom, Joseph, Mollie, Harriet, Steffan, Hannah, Sophie a Josephine. Cynhaliwyd ei angladd fore Mawrth, 25 Ionawr, yn Amlogfa Bangor gyda'r Parchedig Huw John Hughes yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Catrin, Tony a'r hogia, Guto a lolo, 15, Allt Pen y Bryn yn eu profedigaeth o golli mam Catrin ychydig o ddyddiau cyn y Nadolig. Mae hiraeth am fam a nain annwyl ganddynt i gyd.

### Genedigaethau

Llongyfarchiadau mawr iawn i Elin a Carwyn Williams, Rhes Mostyn ar enedigaeth eu mab bach Jac Lloyd ar 21ain o Ionawr.

Llongyfarchiadau hefyd felly i'r neiniau a'r teidiau, sef Gwenllian a John Roberts, 5 Erw Las, a Lilian a Cemlyn Williams, 18 Erw Las. Mi fydd yna hen fopio!

Yr un yw ein llongyfarchion i Nerys a Steven o Ffordd Glanafon, Bethesda, ar enedigaeth merch fach, sef Holly Jen, chwaer fach i Poppy. Merch fach arall i Nain a Taid Erw Las, Peter a June Griffith, gael gwirioni arni.

### Diolchiadau

Dymuna Mrs Anne Williams, 14 Ystâd Coetmor ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, ymweliadau, negeseuon a galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd am yr holl roddion ariannol hael a gafwyd er cof am Tegwyn (Tec) tuag at nyrsus Macmillan. Mae'r teulu yn ddiolchgar hefyd i'r Parchedig Huw John Hughes am ei wasanaeth yn yr Amlogfa ac i'r ymgymerwr, Mr Gareth Williams am ei wasanaeth gyda'r trefniadau.

Sefydlwyd 1969

**m.hughes**  
**a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**  
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda  
☎ 600633  
☎ (symudol) 07702 583765  
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.*

## Marchnad Ogwen

**Mawrth 12fed**

**9.30am - 1pm**

**Yn y CLWB CRICED a BOWLIO**

**Bwydydd,  
Creffttau, Lleol**

**www.marchnadogwen.co.uk**  
**Facebook**

## CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda  
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus  
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partion o bob math - plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

Gadewch i  
**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi



## Yr Eglwys Unedig

### Marwolaeth

A'r Llais ar fin mynd i'r wasg, daeth y newydd hynod o drist bod Mrs Gwenno Evans wedi'n gadael. Bydd manylion pellach yn rhifyn Mawrth, ond yn y cyfamser anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Nia a'r teulu yn eu hiraeth. Colled enfawr i ni yma yn Jerusalem.

### Oedfaon

Unwaith eto, mae ein diolch yn fawr i'r rhai a fu'n ein gwasanaethu yn ystod Suliau Ionawr, sef Mrs Ceri Dart, Mr Richard Morris Jones, Mrs Nerys Griffiths, Y Parchedig Anna Jane Evans, Y Parchedig Mererid Mair, a Mr Dafydd Iwan. Mae'r cyfuniad o addoli yn y capel a thrwy gyfrwng y ffôn yn golygu bod nifer teilwng iawn o'r aelodau yn gallu dod at ei gilydd, a gobeithiwn barhau i wneud hynny yn rheolaidd o hyn ymlaen. Yn sicr, mae'r ffôn wedi bod yn adnodd gwerthfawr iawn i'r rhai sydd yn methu bod yn bresennol yn y capel.

### Cofion

Anfonwn ein cofion cynnes at y rhai sydd yn cwyno, neu'n llesg, gan gofio'r arbennig am Mr William Hughes, sydd yn dal i dderbyn triniaeth.

### Gweithgareddau

Mae'n braf gweld gweithgareddau cymunedol yn defnyddio adeiladau'r capel unwaith eto. Bydd Côr Meibion y Penrhyn yn ymarfer yma ar nos Lun, tra bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i Neuadd Ogwen; mae'r Sgowntiaid yn cyfarfod ar nos Fawrth, ac mae Cwmni Crawia yn cyfarfod ar nos Iau. Mae'r Gymdeithas Hanes hefyd yn cwrrd unwaith y mis. Os hoffech wneud ymholiad ar gyfer eich grŵp neu gymdeithas chwi, yna cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Walter Williams ar 01248 601167, neu drwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

### Gwasanaethau

Chwefror 20: Y Parchedig Cledwyn Williams (10)  
Chwefror 27: Y Parchedig Gwyndaf Jones (10 a 5)  
Mawrth 6: Mr Dennis Davies (10 a 5)  
Mawrth 13: Y Parchedig Robert Capon (5)  
Mawrth 20: Y Parchedig Geraint Roberts (10 a 5)  
Mawrth 27: Y Parchedig John Owen (10)  
Croeso cynnes i chwi i ymuno â ni, a chofiwch y bydd pob oedfa ar gael ar ffôn.

## Eglwys Crist, Glanogwen

### Apêl

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr Apêl hyd yma, trwy weithgareddau codi arian, cyfrannu trwy GoFundMe neu roddion er cof am anwyliad. Mae'r Clwb Cant wedi profi'n boblogaidd iawn ac wedi codi dros £1,000 i'r Gronfa. Mae bellach bron i £40,000 yn y coffrau, ac edrychwn ymlaen yn fuan at ddechrau atgyweirio'r clochdy. Ond mae ffordd bell i fynd wrth gwrs, ac mae'n amser bellach i feddwl am syniadau newydd i godi arian yn y dyfodol.

### Gwasanaethau

Cynhelir gwasanaeth Cymun bellach bob bore Sul am 11.00,

gwasanaeth byr bob bore Mercher am 10.30, a phaned a sgwrs i ddilyn. Fel arfer, mae croeso i bawb ymuno yn y gwasanaethau i gyd. Diolch am gadw at y rheolau dros y cyfnod anodd a aeth heibio, ac edrychwn ymlaen at weld diwedd ar y cyfyngiadau yn fuan iawn.

Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr:  
£50: 91 Ms Val Jones  
£20: 178 Mrs Joan Williams, Llanrwst  
£20: 3 Ms Ann T Morris

Cofiwch yn ein gweddïau am bawb sydd yn sâl neu'n unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd yn hiraethu am anwyliad;

cofiwch roi gwybodaeth os y gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

### Manylion Cyswllt

Llongyfarchiadau cynnes iawn i'r Hybarch Mary Stallard ar ei phenodiad yn Esgob Cynorthwyol Bangor. 'Rydym yn ddyledus iawn fel Bro Ogwen am ei gofal drosom yn ystod ein cyfnod heb ficer, a hi yw'r cyswllt, ar Llandudno 01492 876624, ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd. Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

## Gŵyl Cynefin a Chymuned 2022



Yn dilyn llwyddiant Gŵyl Cynefin a Chymuned 2021 a drefnwyd gan Bartneriaeth Ogwen a chriw o wirfoddolwyr lleol, 'rydym yn awr yn edrych ymlaen at 2022 ac yn gobeithio trefnu penwythnos arall o weithgareddau diwylliannol yn y Dyffryn. 'Rydym yn anelu i gynnal yr ŵyl rhwng y 9fed a'r 11eg o Fedi a'n gobaith yw cynnal cyfres o ddarlithoedd, dangosiadau ffilm, teithiau tywys a mwy.

Roedd rhaglen 2021 yn gyfuniad o ddarlithoedd a theithiau cerdded gyda

haneswyr, artistiaid ac arbenigwyr ar wahanol themau yn berthnasol i Ddyffryn Ogwen a bu'n gyfle gwych i ni ddatlu treftadaeth arbennig y fro. Os hoffech gael blas ar yr arlwy yma, mae cofnod digidol o'r holl ddarlithoedd ar gael ar [www.amam.cymru/partneriaeth-ogwen](http://www.amam.cymru/partneriaeth-ogwen)


Wrth i ni fynd ati i drefnu Gŵyl Cynefin a Chymuned 2022, hoffem estyn croeso cynnes i unrhyw aelodau eraill o'n cymuned fyddai'n hoffi ymuno yn y gwaith trefnu. Os hoffech wirfoddoli, cysylltwch â [chris@ogwen.org](mailto:chris@ogwen.org)



# CROESAIR

## AR DRAWS

- 7 Lle sy'n wobwr llwyddiant mewn rhagbrawf eisteddfod (6)
- 8 Grym i'w drefnu rhwng diwedd yfory a dechrau chwalu wrth weithredu (6)
- 9 Gorchest addysgol i fesur y tymheredd efallai (4)
- 11 Hynny yw (3)
- 12 Mae Dafydd bach yn pendroni'n ddryslyd cyn penderfynu (4)
- 15 Ymddangosiadau "Llais Ogwan" (5)
- 17 Swnio fel un sy'n canmol Edward bach am smocio (7)
- 19 Gall ffoi gryn bellter wedi cynddeiriogi (7)
- 21 Pum cant ynghanol ynys fler yn wahanol iawn i 12 Ar Draws (5)
- 24 Un o efeilliaid straeon Kate Roberts (4)
- 27 Mwnci mawr a'r enw bach (3)
- 28 Gwêl ffos wrth fynd yn ôl a brenin y clawdd ymlaen. Eisteddedd yno (4)
- 30 Gyda'r 'b' am beint o gwrw yma (6)
- 31 Symud ar y wifren Zip yn chwarel y Penrhyn (6)



## I LAWYR

- 1 Gwêr cannwyll (4)
- 2 Ac os Oes trydydd yn y ras (4)
- 3 Didwyll a diffuant (5)
- 4 Hanner coron oedd y rhan yma o bunt cyn y degol (6)
- 5 Fel 31 Ar Draws, ond ar eira (4)
- 6 Pa amser i gael cinio (4)
- 9 Carreg werthfawr (3)
- 10 Yn ei bryd ar yr adeg cywir (7)
- 13 Egr ydi o pan mae'n dyrnu'n gas (7)
- 14 'Arglwydd ein --- ni, mor ardderchog yw dy enw' (*Salm*) (3)
- 16 Mae'r eli yn lles i Eleias bach (3)
- 17 Gyda (3)
- 18 Y dderwen gref yn meddwl am ei dyfodol (3)
- 19 Diniwed a gwirion yn nechrau Ebrill (3)
- 20 Bechod a biti garw (6)
- 22 Y felynwallt o Na n-Og (3)
- 23 'Tumble dryer' nain ers talwm! (5)
- 25 Gwres y brwdfrydedd yn pallu (4)
- 26 Dau o'r deuddeg fu'n swpera (4)
- 28 Cweir go iawn (*tafodiaith*) (4)
- 29 Lle da gynt i gyflogi gwas bach a morwyn (4)

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

### ATEBION CROESAIR IONAWR 2022

**AR DRAWS** 1 Seren, 4 Dyfod, 10 Bradychu, 11 Y Dref, 12 Nodyn, 13 Argraffu, 15 Wini, 17 Tywys, 19 Tollty, 22 Adar, 25 Dyrchafu, 27 Godro, 29 Amser, 30 Ennaint, 31 Ynfyd, 32 Mulod

**I LAWYR** 2 Epaod, 3 Efyrynwy, 5 Ymysg, 6 Oernant, 7 Eboni, 8 Tuchan, 9 Ofnus, 14 Rita, 16 Isaf, 18 Ymryson, 20 Organau, 21 Adran, 23 Dudew, 24 Holtti, 26 Aerwy, 28 Dringo

Prin iawn oedd y gwallau y tro yma ; cafwyd 'duaedd' yn lle 'dudew' (23 I Lawr), ac 'amrwy' yn lle 'aerwy' (26 I Lawr).

Y canlynol yrrodd atebion hollol gywir : Ann Temple Morris, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; J. R. Jones, Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Dilys W. Griffith, Abergele; Elizabeth Evans, Penrhosgarnedd; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Gareth Oliver, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gill King, Mynydd Llandygai, Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Emrys Griffiths, Rhosgadfan.

**Llongyfarchiadau i Elizabeth Evans, 39 Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2PS ar ddod yn fuddugol y tro yma.**

Atebion erbyn **4 Mawrth 2022** fan bellaf i "Croesair Chwefror", Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd, LL57 3PD

# Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen

Yn dilyn dwy flynedd o seibiant, 'rydym fel pwyllgor yn gobeithio cynnal sioe eleni – ond 'rydym yn chwilio am help.

## Lleoliad

Oherwydd y datblygiad tai yn yr hen safle Clwb Rygbi, nid yw'r llwybyr troed bellach yn bodoli. Felly bydd raid i gerddwyr ddefnyddio'r prif lôn i'r cae, gan wynebu'r holl geir/loriau sy'n dod i'r cae ar ddiwrnod y sioe. Mae'r sefyllfa yma nawr wedi creu pryderon mawr i ni parthed diogelwch cerddwyr sydd yn dod i'r sioe. Gyda hyn mewn golwg, 'rydym yn awr yn chwilio am leoliad

newydd i'r sioe. Os gwyr unrhyw un ohonoch am gae sydd yn fwy addas, ac ar gael yn ystod wythnos y Sioe, os gwelwch yn dda cysylltwch â Nia (isod) fel ein bod yn gallu ei chynnal eleni.

## Gwirfoddolwyr

'Rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu gyda gwaith stiwardio ar ddiwrnod y sioe.

Os ydych yn gallu ein helpu mewn unrhyw ffordd yna cysylltwch â Nia ar 07821687930 neu nia@soedyffrynogwen.co.uk Diolch yn fawr.

## Chwilio am grant?

Os ydych chi'n...

- ❖ fudiad cymunedol neu wirfoddol sydd wedi ei leoli neu'n gweithredu o fewn Dyffryn Ogwen, yr ardal sydd o fewn ffiniau Cyngorau Cymuned Bethesda, Llandygái a Llanllechid
- ❖ cynllunio prosiect amgylcheddol a fydd yn creu budd i drigolion Dyffryn Ogwen
- ❖ gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

...efallai y gallwn ni eich helpu!

## Elusen Ogwen

Pwy ydyn ni?

- ❖ Mae Elusen Ogwen yn elusen gofrestrdig a ffurfiwyd ym mis Rhagfyr 2020. Rydym yn cael ein hincwm o ran o'r elw a wneir gan Ynni Ogwen drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn Nyffryn Ogwen.
- ❖ Ein prif nod yw cefnogi mentrau ym maes cynaliadwyedd a fydd yn gwella ansawdd bywyd i drigolion, grwpiau a chymunedau Dyffryn Ogwen.

Mae grantiau o hyd at £2,000 ar gael drwy gydol y flwyddyn.

Am ragor o wybodaeth:

Gweler ein tudalen Facebook neu ein gwefan:  
<https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/>  
 Cysylltu: [elusenogwen@gmail.com](mailto:elusenogwen@gmail.com)

Elusen Ogwen: Elusen gofrestrdig rhif 1192642

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

Fel y cofiwch, dw i'n siŵr, hel ychydig o atgofion wnes i yn rhifyn Ionawr *Llais Ogwan* ac roeddwn yn falch iawn o glywed bod hynny wedi gwneud i ambell un o'r darllenwyr fynd ati i ddwyn i gof ambell atgof o'u gorffennol hwythau.

Cefais f'atgoffa gan Brenda Wyn Jones (Tregarth) a chan Beryl Orwig (Braichmelyn), tua'r un pryd, am y rhigwm bach a oedd yn gyfarfwyd i lawer ohonom tua chanol y ganrif ddiwethaf ac yn dechrau fel hyn:

Wele cawsom yn y Dreflan  
Gacan bwddin orau 'rloed ...

Os oes unrhyw un o ddarllenwyr *Llais Ogwan* yn gallu gorffen y rhigwm, rhowch wybod i mi (ar 07979 506 680). At hynny, os ydych chi'n cofio unrhyw hen rigymau neu gerddi ac iddyn nhw gysylltiad(au) lleol, gadewch i mi wybod neu, gwell fyth, anfonwch gopi (neu gopiâu) ataf.

Ar ddiwedd fy nghlofn y mis diwethaf, soniais am un o'r

prydau bwyd 'moethus' a 'blasus' hynny a fwynhâi fy mam a'i theulu ers talwm, sef 'Tyrchi Pei' ac addewais roi gwybod i chi yn rhifyn Chwefror *Llais Ogwan* be'n union oedd 'Tyrchi Pei'. Codais y manylion a ganlyn o lyfr gan Myfanwy Eames a gyhoeddwyd yn y gyfres 'Llyfrau Cadw Tŷ' gan Hughes a'i Fab, Wrecsam. Does dim dyddiad cyhoeddi arferol arno, ond ar dudalen ac arni'r teitl 'At y Darllenydd', nodir '1932' fel awgrym o bryd y gwelodd y gyfrol olau dydd. Gwaetha'r modd, mae gwall yn y teitl, 'Llyfr Prydiau Bwyd'; 'Prydau' sy'n gywir, wrth gwrs.

Ar dudalen 100 (allan o 114), dyma sut yr awgrymir y dylid gwneud 'Tyrchi Pei':

Rhoi darn o fara heb grystyn mewn powlan, ac ychydig o halen, a thywallt dwfr berwedig arno. Hidlo'n llwyr a rhoi talp o feny i mewn.

Ydi hynna'n tynnu dŵr o'ch dannedd chi, tybed?



Manylion Cyswllt  
Cyngorwyr Sir  
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn  
[cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru) 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái  
[cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru) 01248 605523

Bethesda  
[cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru) 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes  
[cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru) 07765 400140

[f @CynghorwyrDyffrynOgwen](https://www.facebook.com/CynghorwyrDyffrynOgwen)

[t @PlaidCymruOgwen](https://twitter.com/PlaidCymruOgwen)

# Natur o'n Cwmpas



## Rhedyn, a Thri Arbenigwr



Rhedynen gelyn

Mae'r rhedynen ungoes (*Pteridium aquilum*; bracken) yn bur gyffredin yn yr ardal hon, ac mae'n tyfu ar lethrau mynydd, mewn rhostiroedd ac mewn coedwigoedd. Dyma blanhigyn hir ei goes a chryf sy'n tyfu'n eithriadol o dal ambell dymor, fel y llynedd pan gofnodwyd deilgeinciau unigol dros 2.5 metr.

Yn ddiddorol iawn, mae yna amrywiaeth ryfeddol o redyn yn Nyffryn Ogwen a'r cyffiniau, a bu tri Chymro yn eu hastudio a'u cofnodi gan ddod yn arbenigwyr

arnyn nhw.

Un ohonyn nhw oedd John Davies (Castell Idwal). Cafodd ei eni yn Nhrefriw a daeth i fyw ym Mlaen-y-nant ym mhen uchaf Nant Ffrancon yn 22 oed cyn symud i fwthyn ar lan Llyn Ogwen ym Mhenynglog. Daeth i'w adnabod fel John Davies Penynglog. Yn ei henaint daeth yn ôl i lawr i Nant Ffrancon ac ymgardefu ym Mraich Tŷ Du.

Yn ogystal â bod yn naturiaethwr hunanddysgedig roedd yn hynafieithydd ac yn

fardd a gyhoeddodd gyfrol o'i gerddi, *Blaenffrwyth Awen*. Fel naturiaethwr, cyhoeddodd gyfrol *Taith o Fethesda i Gapel Curig* yn cyflwyno gwybodaeth am ddaeareg yr ardal ac am y gwahanol fathau o redyn a oedd yn tyfu rhwng y ddau le. Cofnododd 20 math o redynen. Wrth gwrs, yr enwau Cymraeg a ddefnyddiai, ond gwyddai eu henwau Lladinaidd a'u henwau yn Saesneg. Yn eu plith, cofnododd Adain redynen y chwareli (*Allosorus crispus*), Dueg redynen goesddu (*Asplenium adiantum-nigrum*), Tafod-yr-hydd cyffredin (*Scolopendrium vulgare*) a March redynen y mynydd/rhedynen Mair (*Lastrea oreopteris*).

Naturiaethwr wedi ei addysgu ei hun oedd William David Roberts, Y Gelli, Capel Curig hefyd. Ei brif ddiddordeb yntau oedd casglu gwahanol fathau o redyn, gan ganolbwyntio yn arbennig ar y rhai prin yn Eryri. Un o'r rhain oedd y Rhedynen gelyn (*Polystichum lonchitis*; *holly fern*). Fe'i ceir yn y gwledydd gogleddol, ond yng ngwledydd Prydain dydi hi ddim yn tyfu ond mewn hafnau ar greigiau mynyddoedd sydd dros 914m (3,000tr) o uchder. Fel y mathau eraill o redyn, roedd William David Roberts yn gwybod yn union ble y tyfai. Fel rhan o'i ymchwil, byddai'n cymryd deilgaine o'r gwahanol fathau i'w plannu yn ei ardd er

mwyn eu hastudio ymhellach, a chadw 'lyfr rhedyn' yn llawn o'i nodiadau amdanyn nhw.

Bu farw William David Roberts yn ifanc iawn, ond cafodd ei wŷr, Evan, wybod yn gynnar iawn gan ei rieni am 'lyfr rhedyn' ei daid er bod y lyfr wedi mynd ar goll. Daeth yntau yn ei dro i ymddiddori ym mhlanhigion Eryri. Naturiaethwr hunanddysgedig oedd Evan fel ei daid, yn crwydro a sylwi a gwneud nodiadau. Daeth yn arbenigwr cydnabyddedig ym maes astudio planhigion mynyddig, a byddai ymchwilwyr proffesiynol prifysgolion a chyrrff naturiaethol o bell ac agos yn dod ar ei ofyn, yn enwedig i gael gweld y blodau Alpaidd prin sydd yn y rhan hon o Eryri. Daeth Evan Roberts yn Warden Cwm Idwal efo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a'i ddirchafu wedyn i fod yn Brif Warden y Gwarchodfeydd Natur. Cawn fwy o hanesgwaith y gŵr arbennig hwn rywbryd eto.

**Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyfyr natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.**

## HYWEL WILLIAMS

### AELOD SENEDDOL DROS ARFON



**CYSYLLTWCH:**

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk



**YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON**

**SAMARIAID**  
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu  
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl  
7-11pm bob nos

**0808 164 0123**

Gwefan: [www.samariaidbangor.cymru](http://www.samariaidbangor.cymru)

# CHWILAIR

CHWEFROR



## Caneuon Ffydd

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	G	Y	B	E	T	Y	W	F	N	Y	N	W	A	B	A	N	O	V	S
H	F	E	L	N	A	W	G	E	F	F	A	D	O	G	I	M	E	I	M
G	V	W	U	D	D	I	L	L	O	N	W	H	C	L	O	I	D	H	M
D	H	T	O	B	A	S	E	R	O	F	O	T	E	H	T	E	A	D	W
H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R
P	A	G	O	R	W	N	D	D	R	Y	S	A	U	M	A	W	L	Y	Q
Z	C	Y	F	F	E	L	Y	B	U	N	I	M	D	U	W	G	R	H	C
U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R
H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	P	T	T
J	U	B	I	L	A	T	E	J	U	B	I	L	A	T	E	C	B	B	C
U	U	J	P	L	T	M	I	V	V	D	C	B	B	F	R	F	O	G	J
V	I	I	R	R	X	I	M	H	T	T	O	S	K	O	P	W	R	C	M
K	A	G	O	R	E	I	N	L	L	Y	G	A	I	D	C	B	O	R	C
X	V	R	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	O
S	D	D	Y	W	L	G	R	A	R	Y	R	A	H	C	W	L	O	M	C
R	A	C	Y	D	U	N	E	D	S	E	I	O	N	L	A	N	I	X	N
I	C	E	N	W	C	H	I	R	A	R	G	L	W	Y	D	D	L	X	J
J	I	R	D	U	E	N	U	A	D	D	Y	H	T	I	L	B	I	M	B
W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R

Yn y Chwilair mis yma mae LLINELL GYNTAF DEUDEG EMYN O LYFR CANEUON FFYDD i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn CHWEFROR 25 . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un

wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

**Dyma atebion chwilair lonawr:** Aberdaron; Afonwen; Beddgelert; Carmel; Croesor; Deiniolen; Garndolbenmaen; Groeslon; Llanbedrog; Mynytho; Pentir; Tudweiliog. Nifer fawr ohonoch wedi darganfod Llanbedr yn lle Llanbedr**OG**, - gwell lwc y tro nesaf! Diolch yn fawr i chwi oll am roi cynnig ar y Chwilair, - y rhai ffyddlon sydd yn ceisio pob mis, a hefyd nifer fawr o gystadleuwyr newydd.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir.** Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Tomos Enoc Williams, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Millie Jones, Llanllechid; Anne Smith, Bethesda; Heulwen Roberts, Bethesda; Selwyn Owen, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Bowen, Gerlan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Nia Wyn Bagnall, Llandegai.

**Enillydd lonawr oedd:-** Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7SJ.

## Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Abercaseg

### Croeso nôl

Braf oedd croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig a chlywed eu hanesion – 'roedd pawb wedi gwirioni gyda'u hanrhegion gan Siôn Corn.

Hoffai'r ysgol hefyd groesawu athrawes newydd, sef Miss Glesni Edwards o Gaernarfon, a fydd yn dysgu Dosbarth Glyder ym Mhen-y-bryn tan yr haf.



### Diolch

Diolch o galon i Melanie Jones am greu adnoddau gwerthfawr. Bydd plant Ysgol Abercaseg wrth eu bodd yn cael eu defnyddio.

### Yr Urdd yn 100

'Roedd person pwysig iawn yn dathlu ei ben-blwydd y mis yma yn 100 oed! 'Roedd pawb wedi mwynhau dysgu'r gân 'Hei Mistar Urdd' ac wedi rhoi o'u gorau glas i ganu'r gân ar gyfer yr ymgyrch record y byd. Ar ddiwrnod ei ben-blwydd

'roedd pob dosbarth yn dathlu gyda pharti! 'Roeddent wrth eu boddau yn cael disgo Cymraeg ac wrth gwrs cael gwledda ar gacennau, bisgedi a chreision. Yn ogystal â hyn paratowyd cinio arbennig a chystadleuaeth Celf a Chrefft. Nid yn unig cystadlu oedd y plant ond hwy hefyd oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth. Bu disgyblion Pen-y-bryn hefyd yn brysur yn paratoi ar gyfer y diwrnod mawr wrth goginio cacennau a bisgedi, cyfansoddi

dawns, ysgrifennu darn o farddoniaeth, dylunio gwaith celf a meddwl am jôc Gymraeg! Cafodd holl blant yr ysgol ddiwrnod llawn hwyl yn partio a chystadlu er mwyn dathlu'r diwrnod arbennig! Diolch i'r holl rieni am y cyfraniadau gwerth chweil ar gyfer y parti.

Hoffai'r ysgol longyfarch Tomi a Max, sef dau o fechgyn Blwyddyn 6, sydd wedi llwyddo i ennill y fraint o gynrychioli Tîm Pêl-droed Ysgolion Gwynedd. Mae'r ddau yn chwarae'n gyson i'r tîm gan gynrychioli Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg ar lefel sirol. Da iawn hogia!

### Nofio

'Roedd disgyblion Blwyddyn 2 wedi gwirioni cael dechrau ar eu gwersi nofio a braf oedd gweld pawb yn mynd i'r afael â'r her gan ymgorffori agweddau 'Robin Risg'.

### Chwaraeon

Braf oedd gweld y clybiau yn ail-ddechrau cyfarfod yn yr ysgol. Mae Miss Edwards wedi bwrw iddi'n syth, gan gynnal clwb Pêl-rwyd ar ôl ysgol yn wythnosol, gyda thros 20 o blant yn mwynhau'r sesiwn gyntaf ar noson oer ym mis Ionawr yn y gobaith o baratoi at gystadleuaeth yng nghanol mis Chwefror!



## Eisiau gweithio gyda phlant bach?



**Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cychoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.**

Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

[www.meithrin.cymru/swyddi](http://www.meithrin.cymru/swyddi)

Angen cymhwyster gofal plant?  
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

[www.meithrin.cymru/prentisiaeth](http://www.meithrin.cymru/prentisiaeth)

Am sgwrs pellach: [Leanne.marsh@meithrin.cymru](mailto:Leanne.marsh@meithrin.cymru)  
neu ffoniwch 01970 639639



Rhif eilusen: 1022320

## SIÂN GWENLLIAN

### AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

#### CYSYLLTWCH:

- ✉ [sian.gwenllian@senedd.cymru](mailto:sian.gwenllian@senedd.cymru)
- ☎ 01286 672 076
- 📍 70 Stryd Fawr, Bangor

 Senedd Cymru  
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Nyth y Gân



## CYNHESU BYD-EANG

Pur greulon yw natur ar brydiau  
A dengys ei nerthoedd i ni,  
Cawn weled galanas a greodd  
Gan gryfder anferthol y lli.

Digartref fydd miloedd o bobol  
Sy'n trigo wrth ymyl y môr  
Â thonnau swmami yn elyn  
Sy'n taro yn aml ar ddôr.

Heb fwyd a heb ddŵr at gynhaliath,  
Truenus yw gweled y rhain  
Yn ddyn ac anifail ar farw  
A'r cyfan mor hynod o fain.

Bygythiad go fawr yw'r trowyntoedd  
Yn troelli yn wyllt dros y paith  
Gan chwalu yr holl adeiladau  
Sy'n sefyll ar lwybr ei daith.

Y Ddaear i gyd sy'n cynhesu,  
A thanau a ddaw gyda'r gwres,  
Troi'n llwch mae llu o fforestydd  
A'r fflamau a'u mygu ddaw'n nes.

Mae'r moroedd yn codi bob blwyddyn,  
Mynyddoedd o rew greodd hyn  
Yn llithro yn dalpiau i'r dyfnder  
Fu gynt yn llwyfandir mawr, gwyn.

## CLAWDD PILERI

Border yw'r clawdd pileri, a dynnwyd  
O haenau'r clogwyni;  
Ymdrech mewn chwarel lechi  
Fu ei ddod o'i pherfedd hi.

Ffos y Mynydd  
Y wanaf a gychwynnodd, i arwain  
Rhai eraill a lifodd;  
Â'i thaith mor faith ni fethodd,  
Yn y bae bu wrth ei bodd.

**Dafydd Morris**

# SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth


## CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau  
Newydd  
gan Grefftwyr Newydd  
wedi cyrraedd y siop

Hefyd  
Llu o gardiau cyfarch  
ar gyfer pob achlysur.  
Cysylltwch â'r siop ar  
yffôn **07394 905881**

neu E-bost [siop@ogwen.org](mailto:siop@ogwen.org)  
i drafod beth sydd ar gael ac i  
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH  
LLEOL**



**Oes gennych  
chi ddiddordeb  
i hysbysebu yn  
Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â  
Neville Hughes  
(Ffôn 600853)**

[nev\\_hughes@btinternet.com](mailto:nev_hughes@btinternet.com)

## MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysu Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



[moduronpandy@yahoo.com](mailto:moduronpandy@yahoo.com)  
[www.moduronpandymotors.co.uk](http://www.moduronpandymotors.co.uk)

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY



## JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,  
GWYNEDD LL57 3NE  
ebost: [sales@jrscaffolding.co.uk](mailto:sales@jrscaffolding.co.uk)

Ffôn/Ffacs:

**01248 601754**

07770 568743 (symudol)



# Chwaraeon

## Ogwen Tigers

Dyma lun o dîm cyntaf Clwb Pêl Droed Ogwen Tigers wedi iddynt fod yn cymryd rhan yn Nhwrnament Cynghrair Genethod Gogledd Cymru ym Mharc Eirias. Gwnaethant yn ardderchog yno!

Mae'r tîm genethod o dan 9 oed (blwyddyn 4) yn ymarfer bob nos Fercher am 6 ym ym Mhlas Ffrancon.



## Gêm o'r Gorffennol

Diolch i Gareth Jones am anfon y wybodaeth ddiddorol yma am y gêm bel-droed fawr a fu rhwng tîm Bethesda Athletic a Dinas Caerdydd yn ôl yn y chwedegau. Tybed a oes rhywun yn cofio beth oedd y sgôr terfynol?

Dyma enwau aelodau'r ddau dîm:

### BETHESDA

Brian Dobing  
Cemlyn Jones  
Eddie Garrett  
Mel Sutton  
David Spazitcker  
Robin Poole  
Mickey Hunt  
Frank Boardman  
Barrie Lewis  
Howie Jones  
Les Hurley  
David Walsh



### CAERDYDD

Fred Davies  
David Carver  
Gary Bell  
John Curry  
Don Murray  
Steve Derrett  
Barrie Jones  
Brian Clark  
Leslie Lea  
John Toshack  
Peter King  
Brian Harris

## Iaith Pesda

### Chwarae

Yn y golofn y mis diwethaf mi soniais amdanom ni fel plant yn chwarae cobls, sef gêm yn defnyddio cnau casatanwydden y meirch. Byddem ni yn casglu ein cobls ni yng nghoedwig Parc Moch. Mae John Ffrancon Griffith, yn wreiddiol o Fethesda ond sydd bellach yn byw yn Abergele, yn cytuno mai chwarae cobls y byddai yntau hefyd. Rhoddwyd llinyn trwyddynt wedyn byddai un yn dal y cobl i fyny a'i wrthwynebwr yn ceisio ei tharo a'i malu. Petai'r ddau llinyn yn clymu byddai'r cyntaf i weiddi 'cobl' yn cael tri chynnig i geisio torri'r llall.

Gêm arall a chwaraewyd oedd marblis. 'Doeddem ni ddim yn chwarae marblis drwy'r amser ond byddai yn dod yn ei dro, a dyna fyddai'r ffasiwn am dipyn gyda phawb yn casglu marblis. Y gamp bob amser oedd mynd adra efo mwy o farblis nag oedd gennych yn mynd allan. 'Roedd gêm "ring" neu gylch. Fel hyn mae John Ffrancon yn ei chofio:

"Gwneud cylch tua troedfedd o led mewn tir meddal, neu gyda sialc ar lawr concrit. Y ddau chwaraewr i osod marblen yr un yn y cylch, yna sefyll yn ôl yn wynebu ei gilydd i wynebu'r ring, a'r ddau gyda marblen arall yr un yn ei law. Y gamp wedyn oedd taflu'r farblen yn y llaw bob yn ail am y ring i geisio taro'r marblis allan. Y sawl a lwyddai i wneud hynny fyddai'n ennill."

Dw i'n cofio yn iawn, ac yr oeddem ninnau hefyd yn gweiddi 'bys bach' os oeddem yn gweld bod perygl i'r llall ennill. Roedd gwahanol farblis hefyd - "togo" fyddem yn galw y rhai mawr. 'Roedd "bolberan", ac wrth gwrs "ball bearings" oedd y rheiny, ac yn rhai trwm o'u cymharu â'r lleill. Marblis cwrw mae'n debyg oedd hen stopars a ddefnyddiwyd ar boteli cwrw.

### Tywydd

Pan fydd hi wedi rhewi'n gorn a'r rhew yn dalp caled go fawr, byddwn yn defnyddio'r gair '**plyman**': "Mae'r

rhew yn blyman i lawr y talcan 'ma' neu "Mae'r llyn yn blyman o rew"

Pan fydd hi wedi bwrw ychydig o eira dros nos ar y Carneddau a'r Glyderau a rhyw haenan lwydolau ysgafn ar y copa yn y bore, mi ddwedwn ni: "Mae 'na **gaenan** dena' ar y topia' 'na bora 'ma."

### Geiriau

Er nad wyf yn annog pobl i weithredu'r geiriau canlynol mae'n hynod ddiddorol yr holl eiriau sydd gennym am gwffio. Mae'n debyg bod y canlynol yn cyfeirio mwy at 'slap':

**bonclust, clustan, twll clust, peltan, cefn llaw, swadan, celpan**

Dyma rai eraill cyffredin am ymaflyd o unrhyw fath:

**stid a stido, waldio, colbio, dyrnu, rhoi cweir, sgôd, sgytio, sgytwad, hergwad, pwniad, wab**

Mae llawer mwy 'rydwi'n siwr, - beth am anfon rhai?

Dyma air gefais gan Iona Williams o Fae Colwyn, ond ers talwm, Iona Evans o Giltwillan:

"Mi fyddai fy mam yn dweud wrthyf am beidio a **fflantio** yn enwedig os oedd yn dywydd oer, gan olygu cadw fy mreichiau a'm dwylo o dan y dillad gwely, - dim gwrês o gwbl yn 'stafelloedd gwely y tŷ yng Nghiltwillan!

Derbynias lythyr diddorol iawn drwy'r post yn sôn am Tyrchi Pei a grybwyllwyd yng nghlofn Dr John Elwyn Hughes yn y rhifyn diwethaf. Byddaf yn rhoi sylw iddo y mis nesaf gan fy mod yn awyddus i sôn ychydig am fwydydd a phrydau bwyd ac efallai tyfu bwyd. Felly cysylltwch efo'ch cyfraniadau.

(Buasai'n dda cael gwybod pwy anfonodd y llythyr)

Nodyn i orffen ar ffraethineb tywyll rhai chwarelwyr pan oeddent yng nghanol caledi enbyd:

Beti - Wel wir Huw dwn i ddim be gawn ni i swpar chwarael heno!

Huw - Pam na nei di ferwi'r ddau ornament na sydd ar y silff ben tân!

Cofiwch gysylltu â Mary Jones, 42 Erw Las Bethesda LL57 3NN, [maryeds@hotmail.co.uk](mailto:maryeds@hotmail.co.uk) 07443047642